HM Government

# Cynllun Troseddu Economaidd 2

2023-2026



**© Hawlfraint y Goron 2023**

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi ei drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i **nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3** neu ysgrifennwch i'r cyfeiriad canlynol: Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfonwch neges e-bost at: **psi@nationalarchives.gov.uk**

Os ydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn **gov.uk/official-documents**

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom i'r cyfeiriad canlynol: **public.enquiries@homeoffice.gov.uk**

# Cynnwys


Rhagair y Gweinidog 4

Rhagair y diwydiant 6

## Pennod 1

Trosolwg a dull gweithredu 8

Lleihau gwyngalchu arian ac adennill mwy o asedau troseddol 16

Ymladd yn erbyn cleptocratiaeth ac osgoi sancsiynau 46

Lleihau twyll 56

- Twyll yn erbyn yr unigolyn a busnes 56
- Moderneiddio'r ymateb a lleihau effaith 57

Lleihau'r bygythiad y mae arian anghyfreithlon rhyngwladol yn ei achosi i'r DU a buddiannau'r DU 63

6.Diwygiadau a galluoedd system drawsbynciol 68

## Pennod 2

Mesur cynnydd a llywodraethu 83

- Asesu cynnydd ac effaith 83
- Rheoli cyflenwi 86

## Atodiad

Cefnogaeth i'r Cynllun Troseddu Economaidd 2 88

# Rhagair y Gweinidog




Mae troseddau economaidd yn fygythiad sy'n tyfu'n gyflym ac yn fwyfwy cymhleth i ddiogelwch a ffyniant cenedlaethol y DU. Mae troseddwyr yn parhau i chwilio am ffyrdd o gyflawni troseddau economaidd a chael budd ohonynt, gan gynnwys twyll, gwyngalchu arian, osgoi sancsiynau a llygredd. Mae hyn yn sbarduno'r troseddau cyfundrefnol difrifol sy'n niweidio gwead cymdeithas, yn achosi niwed enfawr i gyllid, lles a buddiannau busnesau cyfreithlon, ac yn tanseilio ein henw da rhyngwladol.

Yr ydym wedi ymrwymo'n llwyr i fynd ar drywydd troseddwyr, cleptocratiaid, a galluogwyr troseddu economaidd. Y llynedd, fe wnaeth y DU gymryd camau sylweddol. Cyflwynodd y llywodraeth y Ddeddf Troseddu Economaidd (Tryloywder a Gorfodaeth) i fynd i'r afael â throseddwyr tramor sy'n defnyddio eiddo'r DU i wyngalchu arian a gwella gorfodaeth sancsiynau; a sefydlodd y Gell Ymladd Cleptocratiaeth. Bydd rhagor o ddeddfwriaeth drwy'r Bil Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol, a'r Bil Diogelwch Ar-lein yn rhoi'r adnoddau i ni drawsnewid ein brwydr drwy gofrestr gorfforaethol fwy tryloyw a rhwymedigaethau newydd ar y sector technoleg i helpu i atal troseddau economaidd sy'n cael eu hwyluso ar-lein.

Roedd y Cynllun Troseddu Economaidd cyntaf (2019-2022) yn cynrychioli newid sylweddol yn ymateb y DU i droseddau economaidd. Am y tro cyntaf, roedd y llywodraeth, asiantaethau gorfodi'r gyfraith, asiantaethau goruchwylio a'r sector preifat wedi datblygu a chyflawni ystod uchelgeisiol o weithgareddau ar y cyd fel rhan o strategaeth ar y cyd. Yn yr ail Gynllun hwn, rydym wedi mabwysiadu dull gweithredu sy'n cynnwys nifer o randdeiliaid, gan weithio'n agos gydag ystod ehangach o bartneriaid i sefydlu Cynllun sy'n adlewyrchu eu pryderon a'u blaenoriaethau ehangach.

Dyna pam yr ydym yn falch o gyhoeddi'r ail Gynllun Troseddau Economaidd cyhoeddus-preifat hwn, sy'n targedu'r heriau a wynebwn yn uniongyrchol. Mae dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau'r Cynllun yn adlewyrchu ffocws ar y cyd ar gyfeirio adnoddau cyhoeddus-preifat tuag at flaenoriaethau y cytunwyd arnynt, er mwyn cynyddu effaith "system gyfan" ar y cyd yn erbyn y bygythiad. Mae'r Cynllun yn cwmpasu twyll drwy'r Strategaeth Twyll sydd ar y gweill a bydd yn sicrhau bod gan y cyhoedd y grym i amddiffyn eu hunain rhag twyll a'r niwed a ddaw yn ei sgil.

Byddwn yn mesur effaith ein gweithgarwch i sicrhau bod y Cynllun yn ymateb i ddatblygiadau, ac yn cael ei gefnogi gan gyllid cynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys y model cyllido cynaliadwy newydd sydd, drwy gyfuniad o wariant y Llywodraeth a'r Ardoll Troseddu Economaidd (Gwyngalchu Arian), eisoes yn darparu buddsoddiad newydd o £400 miliwn rhwng 2022 a 2025.

Mae'r Cynllun hefyd yn adlewyrchu ymrwymiadau'r Gyllideb i dwf economaidd cryf a pharhaus. Bydd ei ddarparu'n cefnogi buddsoddiad busnes ac mae'n hanfodol i gystadleurwydd hirdymor ein sectorau ariannol, proffesiynol a thechnoleg sy'n tyfu ac sydd gyda'r gorau yn y byd. Mae sicrhau bod y DU yn parhau i fod yn un o'r mannau mwyaf tryloyw, diogel ac agored ar gyfer busnes yn hollbwysig i hyn - mae'r Cynllun hwn yn adlewyrchu'r uchelgais honno.



**Y Gwir Anrhydeddus Suella Braverman KCMP, Ysgrifennydd Cartref.**



**Y Gwir Anrhydeddus Jeremy Hunt AS, Canghellor y Trysorlys.**

# Rhagair y diwydiant







Mae'r sectorau ariannol, cyfreithiol, cyfrifeg ac yswiriant wedi ymrwymo i fynd i'r afael â throseddu economaidd ac maent yn croesawu'r ail Gynllun Troseddu Economaidd hwn fel cyfle i gefnogi ein rôl fel porthorion cyfrifol i'r economi gyfreithiol.

Dros y pedair blynedd diwethaf ers cytuno ar y Cynllun cyntaf, mae ein sectorau wedi buddsoddi adnoddau sylweddol mewn gweithio'n agos gyda chyrff gorfodi'r gyfraith, rheoleiddwyr a'r llywodraeth i atal llif cyllid anghyfreithlon sy'n sail i droseddu difrifol a threfnedig. Mae'r ail Gynllun yn ceisio adeiladu ar y bartneriaeth hon drwy ddod â ffocws newydd i dwyll ac osgoi sancsiynau, a thrwy osod uchelgeisiau newydd i resymoli a chryfhau'r system troseddau economaidd, fel bod gweithredwyr yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat i gyd yn mynd i'r afael â'r un blaenoriaethau.

Mae ail-ddylunio'r system yn barhaus yn hanfodol er mwyn i'r sector preifat ganolbwyntio ar yr hyn sy'n sicrhau'r canlyniadau gorau i economi a chymdeithas y DU. Dangosodd y Cynllun cyntaf werth ychwanegol ymdrechion y sector preifat gwirfoddol yn mynd y tu hwnt i ddyletswyddau cyfreithiol. Byddwn nawr yn cryfhau arweinyddiaeth y system i wella ein hymateb i fygythiadau newydd a bygythiadau sy'n dod i'r amlwg, drwy well dealltwriaeth ar y cyd o risg a blaenoriaethu er mwyn sbarduno gweithredu cydlynol ar draws y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Mae'n bwysig bod ymdrechion o'r newydd y mae'r Cynllun diwygiedig hwn yn galw amdanynt yn parhau i gael eu harwain gan reoleiddio a goruchwylio ar sail risg, er mwyn sicrhau bod yr adnoddau hyn yn cael eu canolbwyntio yn y modd mwyaf effeithiol.

Gyda'r ail Gynllun hwn, mae gan y DU gyfle i ddefnyddio dull mwy cynhwysfawr i wella effeithiolrwydd y rheoliadau gwyngalchu arian, mireinio strwythur ein trefn oruchwylio a chryfhau'r drefn ganllawiau. Gellir cefnogi ymdrechion i fynd i'r afael â throseddu economaidd drwy rannu gwybodaeth yn well a diwygiadau strwythurol ehangach, gan gynnwys y pwerau cyfreithiol newydd arfaethedig i drawsnewid Tŷ'r Cwmnïau yn borthor rhagweithiol, a fframwaith rheoleiddio ac atal twyll cliriach ar gyfer porthorion newydd yn y sector preifat i'r economi ddigidol.

Mae cydweithio yn erbyn troseddau economaidd yn bwysicach nag erioed o ystyried y bygythiad a achosir i ddiogelwch gwladol. O wenwyno yn Salisbury i ymosodiad Rwsia ar Wcráin yn 2018, mae ein sectorau wedi gweithio'n agos gyda'r llywodraeth a chyrff gorfodi'r gyfraith i gefnogi ymateb clir a phendant i osgoi sancsiynau ac elitau llwgr sy'n ceisio gwyngalchu elw llygredd yn y DU. Er mwyn mynd i'r afael â thwyll yn y gwraidd, rhaid i ni sefydlu dull system gyfan ar draws mentrau'r diwydiant, atal ar-lein, partneriaethau cyhoeddus-preifat a Strategaeth Twyll y Llywodraeth, gan gynnwys dileu gwendidau a darparu adnoddau cymesur ar gyfer gorfodi'r gyfraith a'r system cyfiawnder troseddol.

**Bob Wigley**
**Cadeirydd**
**UK Finance**

**Hannah Gurga**
**Cyfarwyddwr Cyffredinol**
**ABI**

**Michelle Giddings**
**Cyd-Gadeirydd**
**Grŵp Goruchwylio AML Cyfrifeg**

**Elaine Smyth**
**Cyd-Gadeirydd**
**Grŵp Goruchwylio AML Cyfrifeg**

**Ian Jeffery**
**Prif Weithredwr**
**Cymdeithas y Cyfreithwyr Cymru a Lloegr**

# Pennod 1
# Trosolwg a dull gweithredu

**1.1.** Mae troseddau economaidd yn fygythiad sylweddol i'n diogelwch gwladol a ffyniant y DU. Mae'r ffaith bod y Llywodraeth wedi adnewyddu'r Adolygiad Integredig[1] yn cadarnhau'r effaith sylweddol y mae troseddu economaidd a chyllid anghyfreithlon yn ei chael ar lawer o fygythiadau diogelwch cenedlaethol.

> Mae trosedd economaidd yn cyfeirio at gategori eang o weithgarwch sy'n ymwneud ag arian, cyllid neu asedau, a'i bwrpas yw cael elw neu fantais yn anghyfreithlon i'r cyflawnwr neu achosi colled i eraill. Mae hyn yn fygythiad i economi'r DU a'i sefydliadau ac yn achosi niwed difrifol i gymdeithas ac unigolion.

**1.2.** Mae troseddau economaidd yn cynnwys bygythiadau niweidiol a systemig iawn i'n ffordd o fyw. Amcangyfrifir bod 1 o bob 15 oedolyn wedi dioddef twyll yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2022;[2] mae gwyngalchu arian yn sail i droseddu trefnedig gan gynnwys y fasnach gyffuriau a masnachu pobl; ac roedd ymosodiad Rwsia ar Wcráin wedi tynnu sylw at yr angen i wneud mwy i fynd i'r afael â chyfundrefnau cleptocratig ac osgoi sancsiynau.

**1.3.** Roedd y Cynllun Troseddu Economaidd cyntaf[3] a gyhoeddwyd yn 2019 yn adeiladu ar sylfeini ein hymateb presennol i fynd i'r afael â throseddu economaidd drwy ddod â galluoedd, arbenigedd a gwybodaeth y sectorau cyhoeddus a phreifat at ei gilydd am y tro cyntaf a nodi gweledigaeth ar y cyd ar gyfer newid:

> I'r sectorau cyhoeddus a phreifat ddarparu cynllun cyfannol ar y cyd sy'n amddiffyn y DU rhag troseddau economaidd, yn atal niwed i gymdeithas ac unigolion, yn diogelu uniondeb economi'r DU, ac yn cefnogi twf a ffyniant cyfreithlon.

---

1 Integrated Review Refresh 2023: Responding to a more contested and volatile world (gov.uk).
2 Crime in England and Wales: year ending September 2022 – Office for National Statistics – (ons.gov.uk).
3 Economic Crime Plan 2019-2022 (gov.uk).

**1.4.** Mae'r bartneriaeth breifat gyhoeddus hon wedi bod yn ganolog i'r cynnydd. Drwy'r Cynllun cyntaf, bu i ni wella ein dealltwriaeth o'r bygythiad drwy gyfres o asesiadau bygythiadau cyhoeddus-preifat ar y cyd, gan gynnwys yr Asesiadau Risg Cenedlaethol o Wyngalchu Arian a Chyllido Terfysgaeth,[4] a Chyllido Lledaenu[5] a'r Asesiad Strategol Cenedlaethol a gynhyrchwyd gan yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (NCA).

**1.5.** Fe wnaethom gryfhau ein hymateb o ran gorfodi'r gyfraith a'n fframweithiau deddfwriaethol a rheoleiddiol, gan gynnwys drwy ddiwygiadau i drefn yr Adroddiad Gweithgarwch Amheus (SARs), ac adolygiad cynhwysfawr o Reoliadau Gwyngalchu Arian y DU a fydd yn llywio ein dull o wella effeithiolrwydd y MLRs a mireinio strwythur ein system oruchwylio.

**1.6.** Bydd cyflwyno deddfwriaeth bwysig – y Ddeddf Troseddu Economaidd (Tryloywder a Gorfodi), y Mesur Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol, a'r Bil Diogelwch Ar-lein – yn rhoi rhagor o adnoddau i ni drawsnewid ein brwydr yn erbyn troseddau economaidd.

**1.7.** Rydym wedi gwella ein cydweithrediad yn ddomestig ac yn rhyngwladol i fynd i'r afael â throseddu economaidd a chyllid anghyfreithlon ac rydym hefyd wedi gweld llwyddiannau gweithredol nodedig.

**Astudiaeth achos:**
Ym mis Chwefror 2022, bu Grŵp Gweithrediadau'r Tasglu Gwybodaeth Gwyngalchu Arian ar y Cyd (JMLIT+), sef partneriaeth breifat gyhoeddus a westeiwyd yng Nghanolfan Troseddau Economaidd Genedlaethol (NECC) yr NCA, yn cefnogi Heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn gydag ymchwiliad i dwyll, llwgrwobrwyo a gwyngalchu arian. Roedd yr achos yn ymwneud â thwyll yn erbyn y Weinyddiaeth Amddiffyn yng nghyswllt contractau a roddwyd i endid corfforaethol yn y DU ar gyfer darparu cymorth logistaidd byd-eang i'r Weinyddiaeth Amddiffyn. O ganlyniad uniongyrchol i'r wybodaeth a ddarparwyd drwy gydweithio cyhoeddus-preifat o dan JMLIT+, canfuwyd 45 o gyfrifon nad oeddent yn hysbys o'r blaen a chafodd £53 miliwn o gyllid ei atal.

4 National risk assessment of money laundering and terrorist financing 2020 (gov.uk).
5 National risk assessment of proliferation financing (gov.uk).

**1.8.** Fodd bynnag, mae'r bygythiad sy'n deillio o droseddu economaidd yn parhau i gynyddu. Amcangyfrifir bod twyll i gyfrif am 41% o'r holl droseddau a brofwyd gan oedolion yng Nghymru a Lloegr yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2022.[6] Mae'r NCA yn asesu ei bod yn bosibilrwydd realistig bod dros £100 biliwn o bunnoedd yn cael ei wyngalchu bob blwyddyn drwy'r DU neu drwy strwythurau corfforaethol y DU gan ddefnyddio dulliau Gwyngalchu Arian Lefel Uchel. [7] Mae ymosodiad Rwsia ar Wcráin wedi tynnu sylw at y bygythiad cynyddol sydd eisoes yn cael ei achosi gan gleptocratiaethau. Rhaid i ganolfannau ariannol byd-eang barhau i gydweithredu i atal gwyngalchu cyfoeth gwledydd sy'n cael eu dwyn gan gyfundrefnau troseddol a llygredd.

**1.9.** Mae'r Cynllun tair blynedd hwn yn nodi strategaeth uchelgeisiol i fynd i'r afael â'r heriau hyn wrth i ni barhau i drawsnewid ymateb y DU i droseddau economaidd.

**1.10.** Mae'r ail Gynllun hwn yn ceisio adeiladu ar y sylfeini a osodwyd yn y Cynllun Troseddu Economaidd cyntaf – i ganolbwyntio'n fwy uniongyrchol ar effaith a chanlyniadau, ac yn ei dro i helpu i leihau troseddu, gwarchod ein diogelwch cenedlaethol, a chefnogi twf economaidd cyfreithlon a chystadleurwydd y DU. Mae hefyd yn adeiladu ar y bartneriaeth gyhoeddus-preifat, gan ehangu i fabwysiadu dull gweithredu sy'n cynnwys nifer o randdeiliaid o ran ei datblygu a'i gweithredu.

**1.11.** Mae'r Cynllun hwn yn seiliedig ar fuddsoddiad sylweddol o £400 miliwn o flwyddyn ariannol 2022/23 i flwyddyn ariannol 2024/25. Mae'r cyllid hwn yn cynrychioli £200 miliwn o fuddsoddiad gan y llywodraeth a £200 miliwn o'r Ardoll Troseddu Economaidd (Gwyngalchu Arian), sy'n darparu cyllid cynaliadwy a hirdymor i fynd i'r afael â throseddu economaidd.[8]

**1.12.** Mae'r Cynllun yn nodi ymateb cyfannol i fynd i'r afael â throseddu economaidd. Mae'n gweithredu fel y ddogfen gyffredinol, ac oddi tani mae'r Strategaeth Twyll sydd ar y gweill, ac ochr yn ochr â'r Strategaeth Atal Twyll newydd sydd ar y gweill, yn ogystal â'r ymrwymiadau a wnaed drwy'r adolygiad diweddar o drefn rheoleiddio a goruchwylio Gwrth-wyngalchu Arian y DU / Ariannu Gwrthderfysgaeth (AML/CFT).[9]

---

6 **Crime in England and Wales: year ending September 2022 – Office for National Statistics – (ons.gov.uk)**.

7 **NCA National Assessment Centre assessments (nationalcrimeagency.gov.uk).**

8 Bydd yr ardoll yn cael ei thalu gan gwmnïau sy'n ddarostyngedig i'r Rheoliadau Gwyngalchu Arian. Mae hyn yn cynnwys sefydliadau ariannol, cyfnewidfeydd crypto-asedau, busnesau gwasanaethau ariannol, casinos, gwerthwyr gwerth uchel, cyfranogwyr yn y farchnad gelf, asiantau gosod ac ystadau, cyfreithwyr, cyfrifwyr, a darparwyr gwasanaethau cwmnïau ac ymddiriedolaethau, i helpu i ariannu camau gweithredu newydd gan y llywodraeth i fynd i'r afael â gwyngalchu arian.

9 **Review of the UK's AML/CFT regulatory and supervisory regime (gov.uk)**.

**1.13.** Mae'r Cynllun hwn yn rhoi ffocws clir ar gyflawni canlyniadau gweladwy, ac mae'n ein hymrwymo i:

**ML** Leihau gwyngalchu arian ac adennill mwy o asedau troseddol.

**S** Ymladd yn erbyn cleptocratiaeth ac osgoi sancsiynau.

**F** Lleihau twyll.

Er bod yr ymrwymiadau yn y Cynllun hwn wedi'u nodi o dan golofnau 'canlyniad' penodol, rydym wedi nodi (gan ddefnyddio'r allwedd uchod) lle bydd y camau gweithredu hyn yn helpu i gyflawni gwelliannau i gyflawni canlyniadau ar draws y system troseddau economaidd (gan gynnwys lleihau twyll), gyda dyddiadau cyflawni wedi'u nodi mewn chwarteri yn y flwyddyn galendr.

1.14. Bydd hefyd yn canolbwyntio ar ddiwygiadau uchelgeisiol newydd sy'n hanfodol i gyflawni ein hymrwymiadau ar draws y tri chanlyniad:

## Syniadau allweddol

**475 o ymchwilwyr troseddau ariannol** yn cael eu neilltuo i fynd i'r afael â gwyngalchu arian, ac adennill asedau.

**Cell Crypto newydd** yn cyfuno asiantaethau gorfodi'r gyfraith a rheoleiddwyr er mwyn cronni arbenigedd ac adnoddau gorfodi er mwyn mynd i'r afael â chamddefnyddio cryptoasedau yn droseddol.

**Cell Ymladd Cleptocratiaeth estynedig**, gan ddefnyddio arbenigedd yr NCA i dargedu elitau llwgr, eu harian, a'u galluogwyr

**Dull newydd o flaenoriaethu cyhoeddus-preifat,** yn cynnwys blaenoriaethau ar y cyd i fanteisio i'r eithaf ar adnoddau cyhoeddus a phreifat i atal, canfod ac amharu ar droseddu ariannol.

**Diwygio trefn oruchwylio'r DU mewn modd uchelgeisiol** ac annog gwell rhannu gwybodaeth er mwyn canfod a thargedu troseddu yn well.

**Technoleg newydd o'r radd flaenaf**, gan ddefnyddio offer megis dadansoddi data uwch er mwyn cael mantais ar droseddwyr a rhoi i asiantaethau gorfodi'r gyfraith y wybodaeth sydd ei hangen arnynt.

1.15. Mae'r diagram isod yn nodi'r tri chanlyniad allweddol, a'r diwygiadau trawsbynciol sy'n cael eu blaenoriaethu yn y Cynllun. Dan bob un ceir trosolwg o'r gweithgareddau i'w cyflawni i gyflawni'r canlyniadau hyn dros oes y Cynllun.

Mae'r prosesau llywodraethu wedi'u nodi ym **Mhennod 2**.

## Galluogi twf economaidd dilys

### Lleihau gwyngalchu arian ac adennill mwy o asedau troseddol

- Cyfyngu ar gamddefnyddio strwythurau corfforaethol y DU
- Cynyddu effeithiolrwydd trefn reoleiddio a goruchwylio AML/CFT y DU
- Ymladd yn erbyn y defnydd troseddol o gryptoasedau
- Gwella gwybodaeth, adborth a dadansoddiad drwy Ddiwygio SARs
- Adennill mwy o asedau troseddol
- Arwain yr ymateb gweithredol traws-system i wyngalchu arian

### Ymladd yn erbyn cleptocratiaeth a lleihau'r achosion o osgoi sancsiynau

- Gwella dyluniad, dull gweithredu a gorfodi sancsiynau ariannol yn barhaus
- Cryfhau ymateb gweithredol a rhyngwladol i gleptocratiaeth

### Lleihau twyll

- Mynd ar drywydd twyllwyr
- Atal twyll
- Grymuso pobl
- Moderneiddio'r ymateb a lleihau effaith twyll yn erbyn y sector cyhoeddus drwy Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus

## Lleihau'r bygythiad y mae cyllid anghyfreithlon rhyngwladol yn ei achosi i'r DU a buddiannau'r DU

## Wedi'i alluogi gan alluogrwydd system trawsbynciol a diwygio

- Blaenoriaethu system
- Rhannu gwybodaeth, data a thechnoleg
- Cyllid
- Gallu'r system cyfiawnder troseddol
- Gallu'r asiantaethau gorfodi'r cyfraith a strategaeth gweithlu cyhoeddus-preifat

## Effaith yn cael ei asesu drwy fonitro a gwerthuso

### Dull gweithredu ar draws y DU

**1.16.** Caiff ymateb y Llywodraeth i droseddau economaidd ei arwain gan y Swyddfa Gartref a Thrysorlys EM, ac mae'r ddwy adran yn cydlynu ymdrechion ar draws y Llywodraeth ac asiantaethau i fynd i'r afael â throseddu economaidd. Mae cyfrifoldebau allweddol hefyd yn cael eu dal gan yr Adran Busnes a Masnach (DBT), y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu (FCDO), a llawer o rai eraill.

**1.17.** Mae'r Ganolfan Troseddu Economaidd Genedlaethol (NECC) a gynhelir yn yr NCA yn arwain yr ymateb gweithredol ar draws y system i droseddau economaidd. Dod ag asiantaethau gorfodi'r gyfraith ac erlynwyr, adrannau'r llywodraeth, cyrff rheoleiddio a'r sector preifat at ei gilydd, i gydlynu ymateb system gyfan, 4P (Atal, Amddiffyn, Paratoi, Dilyn)

**1.18.** Mae'r Cynllun hwn yn berthnasol i'r DU gyfan, ac eithrio pan fydd polisïau wedi'u datganoli a bod gwahaniaethau yn yr arfau sydd gan Lywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig yn yr ymateb i droseddu economaidd. Mae'r ymateb plismona i droseddau difrifol a chyfundrefnol yn fater datganoledig yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

**1.19.** Llywodraeth yr Alban sy'n gyfrifol am bolisi cyfiawnder troseddol yn yr Alban. Swyddfa'r Goron a'r Gwasanaeth Procuradur Ffisgal, sy'n gweithredu dan awdurdod yr Arglwydd Adfocad, yw'r unig awdurdod erlyn sy'n gyfrifol am ymchwilio i droseddau a'u herlyn.[10] Heddlu'r Alban yw'r un gwasanaeth heddlu yn yr Alban, ac mae'n gweithio'n agos gyda'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (NCA), Cyllid a Thollau EM, yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) ac asiantaethau perthnasol eraill i ymchwilio i droseddau economaidd. Mae Campws Troseddu'r Alban yn ganolfan aml-asiantaeth, a sefydlwyd gan Lywodraeth yr Alban yn 2015, sy'n cynnwys yr asiantaethau allweddol sy'n ymwneud â mynd i'r afael â throseddu economaidd yn yr Alban.

---

10 Mae cyfrifoldebau'r Arglwydd Adfocad a Swyddfa'r Goron a'r Gwasanaeth Procuradur Ffisgal yn berthnasol i droseddau sydd wedi'u cadw'n ôl (e.e. gwyngalchu arian) ac i droseddau sydd wedi'u datganoli (e.e. twyll, embeslu, llwgrwobrwyo).

**1.20.** Yng Ngogledd Iwerddon, mae'r Adran Gyfiawnder yn gyfrifol am swyddogaethau cyfiawnder a phlismona datganoledig, gan gynnwys polisi cyfiawnder troseddol, sy'n rhan o gymhwysedd Cynulliad Gogledd Iwerddon. Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon (PSNI) yw'r un gwasanaeth heddlu yng Ngogledd Iwerddon a dyma'r brif asiantaeth weithredol ar gyfer troseddau difrifol a threfnedig yng Ngogledd Iwerddon, sy'n gweithio'n agos gyda'r NCA, CThEM ac asiantaethau perthnasol eraill i ymchwilio i droseddau economaidd. Gwasanaeth Erlyn Cyhoeddus Gogledd Iwerddon yw'r awdurdod erlyn. Mae'r asiantaethau allweddol sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â throseddu economaidd yng Ngogledd Iwerddon yn cydweithio ar lefel strategol o dan y Tasglu Troseddau Cyfundrefnol. Mae mynd i'r afael â throseddau economaidd a thwyll yn flaenoriaethau allweddol o dan Strategaeth Troseddu Cyfundrefnol Gogledd Iwerddon.[11]

**1.21.** Nid yw plismona a chyfiawnder wedi eu datganoli i Lywodraeth Cymru.

11 Organised Crime Strategy (justice-ni.gov.uk).

# Lleihau gwyngalchu arian ac adennill mwy o asedau troseddol

### Cyflwyniad

**2.1.** Mae'r DU yn dal yn un o ganolfannau ariannol mwyaf a mwyaf bywiog y byd sydd, ochr yn ochr â sefydlogrwydd economaidd cymharol y DU ac economi agored, yn ddeniadol i'r rheini sydd eisiau cyflawni Gwyngalchu Arian Lefel Uchel (HEML) a Gwyngalchu Arian Parod (CBML). Mae'n bosibilrwydd realistig bod dros £100 biliwn yn cael ei wyngalchu drwy ac o fewn y DU neu strwythurau corfforaethol cofrestredig y DU bob blwyddyn gan ddefnyddio dulliau HEML, gyda CBML yn debygol iawn o fod dros £12 biliwn bob blwyddyn.[12]

**2.2.** Gwyngalchu arian yw anadl einioes troseddu cyfundrefnol, sy'n galluogi grwpiau troseddau cyfundrefnol i fwynhau enillion eu gweithgarwch troseddol niweidiol. Mae deall ei ddulliau a'i wendidau yn hanfodol i atal gweithgarwch gwyngalchu arian. Mae'r rhan fwyaf o'r arian troseddol a gynhyrchir yn y DU yn gysylltiedig â chyffuriau anghyfreithlon a thwyll ecseis; troseddau sy'n niweidio ein cymdeithas a'n heconomi.[13] Mae gwyngalchu arian yn gwanhau hygrededd ein system ariannol a gall gefnogi arferion busnes annheg sy'n tanseilio cystadleuaeth deg yn ein heconomi yn ogystal â thramor.

**2.3.** Mae'r llywodraeth yn glir na ddylai troseddwyr allu elwa o'u gweithgareddau anghyfreithlon mewn unrhyw amgylchiadau – a dyna pam ein bod yn mynd i'r afael ag arian brwnt drwy ein deddfwriaeth gadarn a'n hymateb cryfach i orfodi'r gyfraith. Fodd bynnag, mae mwy i'w wneud. Mae Asesiad Risg Cenedlaethol 2020 o Wyngalchu Arian ac Ariannu Terfysgaeth[14] wedi nodi bod maint y bygythiad yn tyfu ar draws sawl maes ac yn dod yn fwy cymhleth, wrth i droseddwyr ddefnyddio'r dechnoleg sydd ar gael i gyfathrebu, cyflawni troseddau, a chuddio eu helw.

---

12 NCA, National Assessment Centre assessments (nationalcrimeagency.gov.uk).

13 NCA, National Assessment Centre assessments (nationalcrimeagency.gov.uk).

14 National risk assessment of money laundering and terrorist financing 2020 (gov.uk).

**2.4.** Mae'r darlun presennol o'r bygythiad, ynghyd â'r ffordd y mae ymosodiad Rwsia ar Wcráin wedi tynnu sylw at yr angen i wneud mwy i fynd i'r afael â chyfundrefnau cleptocratig, yn atgyfnerthu pwysigrwydd cryfhau ein hymateb i gyllid anghyfreithlon gartref a thramor. Mae uchelgais y llywodraeth yn y maes hwn eisoes wedi'i nodi yn y Cynllun Trechu Troseddu[15], lle rydym wedi ymrwymo i wneud y DU y lle anoddaf yn y byd i droseddwyr wneud ac allforio arian drwy gryfhau'r ymateb i wyngalchu arian, adennill mwy o asedau, a rhoi hwb i'r gallu i orfodi'r gyfraith.

**2.5.** Drwy'r ail Gynllun Troseddu Economaidd hwn, rydym yn datblygu ymateb gwell o'r dechrau i'r diwedd i fynd i'r afael â gwyngalchu arian, o gyfyngu ar gamddefnyddio strwythurau corfforaethol y DU i adfer asedau troseddol.

### Cyfyngu ar gam-drin strwythurau corfforaethol

**2.6.** Mae Tŷ'r Cwmnïau yn hwyluso creu cwmnïau cyfyngedig ac amrywiaeth o endidau cyfreithiol eraill, sy'n flociau adeiladu hanfodol i'r economi fodern. Mae'r gallu i ymgorffori yn arwain at fuddion i fusnes, megis darparu atebolrwydd cyfyngedig am ddyledion y cwmni ac mae'n sefydlu cwmni fel person cyfreithiol ar wahân i'w berchnogion. Amcangyfrifir bod cyfanswm gwerth ymgorffori i berchnogion cwmnïau atebolrwydd cyfyngedig sydd â rhwng 0 a 9 o weithwyr yn £9.6 biliwn.[16]

**2.7.** Er bod y mwyafrif helaeth o endidau corfforaethol yn y DU yn gweithredu i'r safonau uchaf a chyda dilysrwydd, nid yw cyfran fach yn gwneud hynny. Fodd bynnag, mae camddefnyddio hyd yn oed cyfran fach o strwythurau corfforaethol y DU yn ffactor hanfodol sy'n galluogi pob math o droseddu economaidd, gyda degau o biliynau o bunnoedd yn debygol o gael eu golchi drwy strwythurau corfforaethol sydd wedi'u cofrestru yn y DU bob blwyddyn.[17] Ochr yn ochr â chwmnïau yn y DU, mae defnyddio ymddiriedolaethau ac endidau corfforaethol tramor yn parhau i fod yn ddull deniadol o wyngalchu arian anghyfreithlon, yn enwedig yn yr eiddo prynu yn y DU sy'n wynebu risg uchel o wyngalchu arian. Y llynedd, cyflwynodd y llywodraeth y Gofrestr Endidau Tramor, sy'n mynnu bod cwmnïau tramor yn datgelu gwir hunaniaeth eu perchnogion (gan gynnwys lle mae ymddiriedolaeth yn rhan o'r strwythur) i wneud yn siŵr na all troseddwyr guddio y tu ôl i gadwyni cudd cwmnïau coeg, gan osod safon fyd-eang ar gyfer tryloywder a'i gwneud yn anoddach i wyngalchu arian drwy farchnad eiddo'r DU. Rhaid i'r llywodraeth nawr gymryd rhagor o gamau wedi'u cydlynu gan ddefnyddio ein pecyn cymorth rheoleiddiol, goruchwylio a gorfodi gwell, i ganfod strwythurau twyllodrus o'r fath yn gyflymach ac yn fwy effeithiol a gwneud mwy i ddal y rheini sy'n berchen arnynt ac yn eu rheoli i gyfrif.

---

15 **Beating crime plan (gov.uk)**.

16 **Understanding the reasons for forming a company (gov.uk)**.

17 **NCA, National Assessment Centre assessments (nationalcrimeagency.gov.uk)**.

**2.8.** Rydym yn cymryd camau cadarn drwy'r Bil Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol.[18] Bydd hyn yn diwygio rôl Tŷ'r Cwmnïau ac yn gwella tryloywder mewn perthynas â chwmnïau a phartneriaethau yn y DU, er mwyn cryfhau ein hamgylchedd busnes, cefnogi ein diogelwch cenedlaethol a mynd i'r afael â throseddu economaidd, gan ddarparu Cofrestr Cwmnïau fwy dibynadwy i fod yn sail i weithgarwch busnes.

**2.9.** Y ffocws yn y Cynllun hwn yw cyflawni'r diwygiadau hyn, a fydd yn cynrychioli'r newidiadau mwyaf arwyddocaol i fframwaith y DU ar gyfer cofrestru cwmnïau yn ystod y 170 mlynedd diwethaf. Bydd y diwygiadau'n lleihau'r risg y bydd cwmnïau yn y DU ac endidau eraill yn cael eu defnyddio fel cerbydau i hwyluso gwyngalchu arian, twyll, llygredd, ariannu terfysgaeth a symudiadau arfau anghyfreithlon. Bydd diwygio Tŷ'r Cwmnïau hefyd yn cefnogi gwaith ehangach i fynd i'r afael â throseddau economaidd, gan gynnwys dulliau newydd o rannu data i ganfod rhwydweithiau amheus o gwmnïau.

**2.10.** Bydd y Bil yn rhoi mwy o bwerau i'r Cofrestrydd Cwmnïau, gan eu galluogi i fod yn borthor mwy gweithredol dros greu cwmnïau a cheidwaid data mwy dibynadwy sy'n ymwneud â chwmnïau a phartneriaethau. Bydd Tŷ'r Cwmnïau yn gallu gwirio pwy yw'r rheini sy'n sefydlu, yn rheoli ac yn berchen ar gwmnïau, defnyddio galluoedd cudd-wybodaeth gwell i herio a gwrthod gwybodaeth sydd wedi'i ffeilio gydag ef, a mynd ati'n rhagweithiol i rannu gwybodaeth lle mae'n cynnwys tystiolaeth o ffeilio anghyson neu ymddygiad amheus.

**2.11.** Bydd y pwerau newydd hyn yn cefnogi gwaith ehangach i sefydlu dull mwy effeithiol sy'n seiliedig ar risg o atal camddefnyddio strwythurau corfforaethol y DU. Bydd Tŷ'r Cwmnïau yn gweithio gyda'r NECC i ddefnyddio ei alluoedd cyhoeddus-preifat i asesu gwendidau a gweithredu ar y cyd yn erbyn bygythiadau i uniondeb Cofrestr Cwmnïau a chamddefnyddio strwythurau corfforaethol. Bydd y gwaith cynnar yn cynnwys ymchwiliadau i ganfod a mynd i'r afael â rhwydweithiau o gwmnïau amheus, a chefnogi goruchwyliaeth Tŷ'r Cwmnïau o ddarparwyr gwasanaethau corfforaethol awdurdodedig sy'n dilysu ar ei ran.

18 **Economic Crime and Corporate Transparency Bill (bills.parliament.uk/bills/3339).**

**Allwedd:**

**ML** Leihau gwyngalchu arian ac adennill mwy o asedau troseddol.

**S** Ymladd yn erbyn cleptocratiaeth ac osgoi sancsiynau.

**F** Lleihau twyll.

| # | Cam gweithredu | Perchennog | Sefydliad(au) Cefnogi | Cerrig milltir | Dyddiad Cyflawni |
|---|---|---|---|---|---|
| **1.** | Cwblhau deddfwriaeth sy'n sail i ddiwygio Tŷ'r Cwmnïau a phartneriaethau cyfyngedig.<br>**ML** **S** **F** | DBT. | CH, HO, HMT, NECC, HMRC. | Cydsyniad Brenhinol i'r Mesur Troseddu Economaidd a Thryloywder Corfforaethol (DBT/HO). | Ch2 2023. (yn amodol ar fynd drwy'r Senedd) |
| | | | | Amserlen ar gyfer cadarnhau rheoliadau eilaidd (DBT/HO). | Ch2 2023. |

| # | Cam gweithredu | Perchennog | Sefydliad(au) Cefnogi | Cerrig milltir | Dyddiad Cyflawni |
|---|---|---|---|---|---|
| **2.** | Cwblhau'r gwaith o roi'r diwygiadau ar waith yn weithredol, gan gynnwys y gallu i fod yn sail i bwerau newydd i'r Cofrestrydd Cwmnïau. **ML** **S** **F** | CH. | DBT, Gwasanaeth Ansolfedd, NECC, CThEM, goruchwylwyr AML, OPBAS, UK Finance, sector rheoledig AML. | Galluoedd cychwynnol ar waith i ddefnyddio pwerau newydd y Cofrestrydd Cwmnïau, gan ddechrau cyflwyno dull seiliedig ar wybodaeth yn raddol er mwyn canfod gweithgaredd risg uchel gofrestrau Tŷ'r Cwmnïau a defnyddio pwerau ymholi a phwerau eraill i liniaru risgiau (CH). | I'w gadarnhau yn dilyn Cydsyniad Brenhinol i'r Mesur. |
| | | | | Sefydlu proses graffu gadarn a chydgysylltiedig ar gyfer defnyddio darparwyr gwasanaethau corfforaethol awdurdodedig rhwng goruchwylwyr CH ac AML (CH). | I'w gadarnhau yn dilyn Cydsyniad Brenhinol i'r Mesur. |
| | | | | Cyflwyno dilysu ID i gyfarwyddwyr newydd a phresennol, partneriaid, cyflwynwyr a Phobl â Rheolaeth Sylweddol (CH). | I'w gadarnhau yn dilyn Cydsyniad Brenhinol i'r Mesur. |
| | | | | Cyflwyno dulliau rhannu data newydd, gan gynnwys diwygio'r dull o adrodd ar anghysondeb (CH). | I'w gadarnhau yn dilyn Cydsyniad Brenhinol i'r Mesur. |

| # | Cam gweithredu | Perchennog | Sefydliad(au) Cefnogi | Cerrig milltir | Dyddiad Cyflawni |
|---|---|---|---|---|---|
| **3.** | Manteisio i'r eithaf ar werth y diwygiadau drwy integreiddio Tŷ'r Cwmnïau i'r Fframwaith gwrth-Droseddu Economaidd ehangach.<br>**ML** **S** **F** | CH, NECC. | Gwasanaeth Ansolfedd, Goruchwylwyr AML, OPBAS, sector rheoledig AML, DBT, HO, HMT. | Tŷ'r Cwmnïau yn cael ei ymgorffori'n gyflawn i'r Cynllun Troseddu Economaidd a systemau llywodraethu'r NECC (NECC, CH, CThEM, FCA). | Ch2 2023. |
| | | | | Sefydlu grŵp integreiddio NECC/CH i asesu gwendidau a blaenoriaethu cyfleoedd ar gyfer gweithgarwch ar y cyd (NECC, CH, goruchwylwyr, sector rheoledig AML). | Ch3 2023. |
| | | | | Gweithgarwch ar y cyd i gefnogi gwaith parhaus CH o oruchwylio darparwyr gwasanaethau corfforaethol awdurdodedig (CH, goruchwylwyr AML, sector rheoledig AML, NECC). | Ch4 2023. |
| | | | | Gweithgarwch cychwynnol ar y cyd i ddatblygu dangosyddion risg i gefnogi'r gwaith o fonitro ac ymchwilio i gwmnïau a phartneriaethau presennol (CH, NECC, sector rheoledig AML). | Ch1 2024. |
| | | | | Cytuno ar gynllun gweithredu trawsbynciol i fynd i'r afael â gwendidau gweddilliol/newydd (NECC, CH, goruchwylwyr AML). | Ch1 2024. |

### Cynyddu effeithiolrwydd trefn reoleiddio a goruchwylio AML/CFT y DU

**2.12.** Mae trefn reoleiddio a goruchwylio Gwrth-wyngalchu Arian y DU/Ymladd yn Erbyn Ariannu Terfysgaeth (AML/CFT) yn elfen hollbwysig yn y frwydr yn erbyn troseddu economaidd. Canfu adolygiad o'r drefn, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2022,[19] fod gwelliannau wedi cael eu gwneud ers rhoi Rheoliadau Gwyngalchu Arian 2017[20] ar waith a Rheoliadau Goruchwylio Corff Proffesiynol AML/CFT 2017.[21] Fodd bynnag, mae rhagor i'w wneud eto i sicrhau bod mesurau ataliol cadarn a chymesur ar waith ar gyfer busnesau sydd fwyaf agored i gael eu cam-drin drwy wyngalchu arian neu ariannu terfysgaeth, a'u bod yn destun goruchwyliaeth effeithiol sy'n seiliedig ar risg.

**Astudiaeth achos:**

Mae adroddiad goruchwylio 2020-22 AML/CFT, a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM, yn dangos gwelliannau mewn sawl maes goruchwyliaeth, yn enwedig o ran cryfder y mesurau gorfodi a gymerwyd yn erbyn cwmnïau nad ydynt yn cydymffurfio, er gwaethaf heriau ymarferol a achoswyd gan bandemig COVID-19 a mesurau'r cyfyngiadau symud dilynol.

Mae hyn yn parhau â'r duedd o welliannau o un flwyddyn i'r llall i drefn atal gwyngalchu arian y DU dros y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig ers creu Swyddfa Goruchwylio AML Corff Proffesiynol (OPBAS) yn 2018. Sefydlwyd OPBAS yn benodol i sbarduno gwelliannau ar draws y Goruchwylwyr Cyrff Proffesiynol.

Rhoddodd goruchwylwyr gyfanswm o 660 o sancsiynau (gan gynnwys dirwyon, tynnu aelodaeth yn ôl a chanslo neu atal aelodaeth) yn dilyn ymyriadau goruchwylio yn 2021-22, o'i gymharu â 422 yn 2020-21. Mae hyn yn cynnwys 614 o ddirwyon a roddwyd am fethiannau atal gwyngalchu arian yn 2021-22, o'i gymharu â 364 yn 2020-21. Cynyddodd cyfanswm y dirwyon o ychydig dros £109 miliwn yn 2020-21 i dros £500 miliwn yn 2021-22.[22]

Gan adeiladu ar yr adroddiadau rheolaidd hyn ar weithgarwch goruchwylio, mae Trysorlys EM wedi ymrwymo i ddatblygu set ddiwygiedig o ddangosyddion blaenoriaeth, gyda'r nod o ddarparu adborth cliriach ar effeithiolrwydd cyffredinol y Rheoliadau Gwyngalchu Arian.

---

19 Review of the UK's AML/CFT regulatory and supervisory regime (gov.uk).

20 The Money Laundering, Terrorist Financing and Transfer of Funds Regulations 2017 (legislation.gov.uk).

21 The Oversight of Professional Body Anti-Money Laundering and Counter Terrorist Financing Supervision Regulations 2017 (legislation.gov.uk).

22 Trysorlys EM (2022). Anti-money laundering and countering the financing of terrorism: Supervision Report 2020-22 (publishing.service.gov.uk).

**2.13.** Mae ymadawiad y DU â'r UE wedi cynnig cyfle i ystyried lle nad yw gofynion rheoleiddiol presennol AML/CFT yn gwbl addas ar gyfer sefyllfa'r DU, gan sicrhau ein bod yn gallu ymateb yn gyflym i fygythiadau newydd a'n bod yn gwbl gyson â'r safonau rhyngwladol a bennwyd gan y Tasglu Gweithredu Ariannol (FATF). Roedd Adolygiad 2022 o drefn rheoleiddio a goruchwylio Atal Gwyngalchu Arian y DU[23] yn nodi amcanion wedi'u diweddaru ar gyfer cam nesaf y broses o ddatblygu'r MLRs a'r drefn AML/CFT ehangach, sy'n cyd-fynd â chanlyniadau arfaethedig y Cynllun Troseddu Economaidd ehangach hwn. Mae'r amcanion hyn yn cynnwys y sectorau cyhoeddus a phreifat yn gweithio mewn partneriaeth ac yn canolbwyntio ar faterion y tu hwnt i gydymffurfiaeth dechnegol. Bydd cydweithio newydd, er enghraifft, yn ystyried heriau cyffredin fel pa mor effeithiol y mae system ariannol ac economi ehangach y DU yn cael eu diogelu rhag bygythiadau.

**2.14.** Mae'r llywodraeth yn hyderus bod y rhan fwyaf o'r gofynion a'r darpariaethau sydd ar hyn o bryd yn yr MLRs yn rhai cywir. Fodd bynnag, cynigiodd adolygiad 2022 rai newidiadau penodol i wella'r broses o roi'r dull seiliedig ar risg ar waith a byddwn yn ymgynghori ymhellach ar y rhain. Er y gallai rhai o'r rhwystrau i effeithiolrwydd a nodwyd fod ag atebion deddfwriaethol, nid oes atebion deddfwriaethol i lawer, ac mae rhai nad oes atebion clir ar eu cyfer eto. Yn yr achosion hyn, rydym wedi cynnig rhagor o waith, neu ymgysylltu pellach i wella gweithrediad y fframwaith rheoleiddio. Bydd hyn yn cynnwys egwyddorion i gryfhau'r drefn ganllawiau sy'n helpu busnesau i gydymffurfio â'r MLRs, gan ganolbwyntio ar wella cysondeb a phrydlondeb diweddariadau i ganllawiau.

**2.15.** Er bod gwelliannau wedi cael eu gwneud, mae'r llywodraeth hefyd yn glir bod angen diwygio'r drefn oruchwylio AML/CFT ymhellach. Roedd adolygiad 2022 yn nodi rhestr fer o bedwar opsiwn ar gyfer diwygio, a byddwn yn ymgynghori ymhellach cyn dewis a gweithredu'r model a ddewisir. Mae'n hanfodol bod y model a ddewisir yn cyflawni'r gwelliannau gofynnol o ran effeithiolrwydd, er mwyn cryfhau hyder yn y drefn Atal a Rheoli Llygredd/CTM ac uniondeb economi'r DU, ond hefyd er mwyn cefnogi nodau troseddu economaidd ehangach. Bydd darparwyr gwasanaethau cwmnïau awdurdodedig yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o wirio hunaniaeth Tŷ'r Cwmnïau, a bydd diwygio goruchwylio yn cefnogi gwaith i gryfhau'r gwaith o oruchwylio AML yn y busnesau hyn. Gallai unrhyw newidiadau i'r drefn ddigwydd dros gyfnod o flynyddoedd, yn enwedig ar gyfer diwygiadau strwythurol mawr.

---

23 **Review of the UK's AML/CFT regulatory and supervisory regime (publishing.service.gov.uk)**.

**2.16.** Yn y cyfamser, byddwn yn parhau i weithio gyda goruchwylwyr i sicrhau bod gwelliannau tymor byrrach i effeithiolrwydd yn dal i gael eu cyflawni tra bydd opsiynau diwygio tymor hwy yn cael eu datblygu. Bydd hyn yn cael ei ategu gan fwy o ffocws ar effeithiolrwydd y drefn oruchwylio, gan gynnwys drwy greu'r fframwaith perfformiad newydd a argymhellwyd gan adolygiad 2022, a'r llyfr ffynhonnell OPBAS wedi'i ddiweddaru[24] sy'n canolbwyntio ar sicrhau gwelliannau o ran effeithiolrwydd ar draws Goruchwylwyr y Corff Proffesiynol (PBS). Bydd goruchwylwyr yn parhau i wneud gwelliannau yn erbyn y fframweithiau hyn; gweithio gyda'u sectorau, gorfodi'r gyfraith a Thŷ'r Cwmnïau i wella dealltwriaeth o risg a diogelu yn erbyn bygythiadau sy'n dod i'r amlwg, archwilio'r cyfleoedd a gyflwynir gan dechnolegau newydd, a chymryd camau gorfodi priodol i ymateb i achosion penodol o dorri'r MLRs ac atal diffyg cydymffurfio yn y dyfodol.

**2.17.** Mae newidiadau deddfwriaethol diweddar wedi ehangu'r pwerau sydd ar gael i oruchwylwyr, er enghraifft ehangu'r porth rhannu gwybodaeth yn yr MLRs, yn ogystal â'r pwerau gorfodi ehangach a'r amcan rheoleiddio newydd ar gyfer y sector cyfreithiol a ddarperir gan y Bil Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol. Mae llyfr ffynonellau OPBAS wedi'i ddiweddaru yn ei gwneud yn glir i PBS bod cymryd rhan mewn grwpiau rhannu gwybodaeth a chudd-wybodaeth, fel Gweithgor Arbenigol Rhannu Gwybodaeth y sector, yn hanfodol i'w heffeithiolrwydd fel goruchwyliwr. Bydd y llywodraeth yn parhau i weithio gyda goruchwylwyr i roi'r newidiadau hyn ar waith yn llwyddiannus a sicrhau bod disgwyliadau clir yn cael eu gosod ar gyfer cwmnïau.

---

24 **Opbas Sourcebook (fca.org.uk)**.

**Allwedd:**

**ML** Leihau gwyngalchu arian ac adennill mwy o asedau troseddol.

**S** Ymladd yn erbyn cleptocratiaeth ac osgoi sancsiynau.

**F** Lleihau twyll.

| # | Cam gweithredu | Perchennog | Sefydliadau Cefnogi | Cerrig milltir | Dyddiad Cyflawni |
|---|---|---|---|---|---|
| **4.** | Cryfhau goruchwyliaeth bresennol Trysorlys Ei Mawrhydi ac OPBAS, ochr yn ochr ag ymrwymiadau ehangach o adolygiad 2022 sydd â'r nod o wella effeithiolrwydd y drefn oruchwylio AML/CFT bresennol. **ML** | HMT, OPBAS. | Pob goruchwyliwr AML. | Datblygu fframwaith perfformiad a dangosyddion blaenoriaeth Rheoliadau Gwyngalchu Arian (HMT). | Ch2 2023. |
| | | | | Gweithredu strategaeth oruchwylio well o'r drefn oruchwylio bresennol i sicrhau effeithiolrwydd yn erbyn y fframwaith perfformiad a llyfr ffynhonnell OPBAS (HMT, OBPAS). | Parhaus – y cynnydd wedi'i nodi'n flynyddol a'i gyhoeddi yn yr HMT AML Adroddiad Goruchwylio. |
| | | | | Ymgorffori'r llyfr ffynhonnell OPBAS wedi'i adnewyddu gan nodi gofynion ac arferion gorau ar gyfer Goruchwylwyr Corff Proffesiynol (OPBAS). | Ch4 2023. |
| | | | | Adolygu'r adroddiadau gofynnol gan oruchwylwyr AML/CFT, fel adroddiadau Rheoliad 46A y PBS a hunanasesiad blynyddol CThEM, i helpu i fonitro'r ddarpariaeth yn erbyn y fframwaith perfformiad. (HMT, OPBAS). | Ch4 2023. |

| # | Cam gweithredu | Perchennog | Sefydliadau Cefnogi | Cerrig milltir | Dyddiad Cyflawni |
|---|---|---|---|---|---|
| **5.** | Cryfhau goruchwyliaeth ar draws y drefn AML/ CFT bresennol. **ML** | HMT. | Pob goruchwyliwr AML, OPBAS, NECC. | Cyfathrebu'n well â phoblogaethau dan oruchwyliaeth i gryfhau dealltwriaeth risg (Goruchwylwyr, OPBAS, HMT, NECC). | Parhaus. |
| | | | | Mwy o gydweithio rhwng goruchwylwyr a swyddogion gorfodi'r gyfraith i rannu gwybodaeth am fygythiadau newydd a bygythiadau sy'n dod i'r amlwg (Goruchwylwyr AML, OPBAS, HMT, NECC). | Ch4 2024. |
| | | | | Datblygu strategaeth ar gyfer sut i fynd i'r afael â throseddau ariannol sy'n ymwneud â materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (FCA). | Ch4 2024. |
| | | | | Edrych ar opsiynau ar gyfer targedu gweithgarwch goruchwylio yn fwy effeithiol, er enghraifft drwy dreialu technolegau newydd ar gyfer asesu risg cwmnïau unigol, ac ar gyfer profi effeithiolrwydd polisïau, rheolaethau a gweithdrefnau cwmnïau (Goruchwylwyr AML). | Ch1 2025. |

| # | Cam gweithredu | Perchennog | Sefydliadau Cefnogi | Cerrig milltir | Dyddiad Cyflawni |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Gosod disgwyliadau goruchwylio clir drwy gyfathrebu â phoblogaethau sy'n cael eu goruchwylio, gan gynnwys rhyngweithio ag amcanion rheoleiddio ehangach. Sicrhau bod y camau gorfodi a gymerir yn erbyn achosion o dorri amodau AML/CFT yn briodol, yn gymesur ac yn anghymhellol (Goruchwylwyr AML). | Parhaus. |
| **6.** | Ymgynghori, ac yna cyflwyno pecyn o newidiadau y cytunwyd arno, i ddiwygio trefn goruchwylio AML/ CFT y DU a gwella effeithiolrwydd y Rheoliadau Gwyngalchu Arian. **ML** | HMT. | Pob goruchwyliwr, AML OPBAS, sector rheoledig AML. | Ymgynghoriad ar y diwygiadau arfaethedig i'r drefn oruchwylio. | Ch2 2023. |
| | | | | Yna rhoi'r pecyn diwygio a ddewiswyd ar waith (HMT). | Dibynnu ar ganlyniad yr ymgynghoriad. |
| | | | | Dechrau ymgynghori ar ddiwygiadau arfaethedig i'r Rheoliadau Gwyngalchu Arian (HMT). | Ch4 2023. |
| | | | | Yna rhoi'r diwygiadau a ddewiswyd ar waith (HMT). | Dibynnu ar ganlyniad yr ymgynghoriad. |

### Mynd i'r afael â cham-drin crypto-asedau yn droseddol

**2.18.** Mae Cryptoasedau yn ffordd rhad o drosglwyddo gwerth ar draws ffiniau bron ar unwaith. Er bod y mwyafrif helaeth o drosglwyddiadau crypto-asedau yn cael eu gwneud at ddibenion dilys, maent yn alluogwr technolegol deniadol ar gyfer gweithgarwch troseddol. Mae'n anodd pennu cyfran y cyfeiriadau a thrafodion crypto anghyfreithlon oherwydd nifer o ffactorau, gan gynnwys natur ffug-ddienw a thrawswladol crypto-asedau a gwasanaethau, a than-riportio troseddau sy'n cynnwys crypto-asedau. Fodd bynnag, mae cudd-wybodaeth yn dangos bod pryniant troseddol cynyddol a cham-drin crypto-asedau yn gysylltiedig ag ystod eang o droseddau, ochr yn ochr â'u mabwysiadu'n eang gan wyngalchwyr arian a Rhwydweithiau Rheoli Rhyngwladol (ICN). Mae Canolfan Asesu Genedlaethol yr NCA yn asesu ei bod yn debygol bod trafodion crypto-asedau anghyfreithlon sy'n gysylltiedig â'r DU yn 2021 yn cyfateb i o leiaf £1.24 biliwn ar sail amcangyfrifon o gyfanswm gwerth trafodion y DU, gyda phosibilrwydd realistig eu bod yn sylweddol uwch.[25]

**2.19.** Mae datblygiadau yn y diwydiant crypto-asedau yn esblygu'n gyflym ac yn barhaus. Dyna pam mae parhau i gydweithio â sector crypto-asedau'r DU yn hanfodol: mae'n sicrhau bod ein system reoleiddio a goruchwylio yn defnyddio dull gweithredu cymesur a phenodol ar gyfer risgiau troseddau economaidd, gan feithrin twf diogel a chystadleuol. Mae'r llywodraeth yn parhau i fonitro ac addasu i ddatblygiadau newydd yn y diwydiant crypto-asedau i liniaru troseddau ariannol a risgiau eraill, yn enwedig twyll. Mae'r gwaith ymgysylltu a monitro parhaus hwn yn cefnogi'r gwaith o orfodi'r gyfraith ac mae goruchwylwyr yn cael y wybodaeth ddiweddaraf ac yn ymateb i newidiadau yn y sector. Mae dull rheoleiddio cymesur a chyson yn cydnabod bod rheoleiddio crypto-asedau effeithiol, er bod hynny'n heriol, o fudd i bawb, gan gynnwys defnyddwyr a chwmnïau. Dyna pam, yn dilyn ymgynghoriad parhaus, y bydd y llywodraeth yn nodi cynlluniau uchelgeisiol i ddiogelu defnyddwyr a thyfu'r economi drwy reoleiddio gweithgareddau crypto-asedau yn gadarn – gan roi hyder ac eglurder i ddefnyddwyr a busnesau fel ei gilydd.[26] Bydd y camau hyn yn cyd-fynd â'n huchelgais i wneud y DU yn gyrchfan ddeniadol ar gyfer crypto-asedau ac arloesedd crypto-asedau yn y byd.

25 NCA, Canolfan Asesu Genedlaethol, yn seiliedig ar gyfradd trosi USD-GBP cyfartalog ar gyfer 2021 (o **exchangerates.org.uk/USD-GBP-spot-exchange-rates-history-2021.html**).

26 **Future financial services regulatory regime for cryptoassets (gov.uk)**.

**2.20.** Dim ond rhan o'r ymateb yw rheoleiddio. Bydd celloedd aml-asiantaeth dan arweiniad arbenigwyr yn cronni gwybodaeth a galluoedd asiantaethau gorfodi'r gyfraith, gan sicrhau bod yr holl adnoddau gorfodi sydd ar gael yn cael eu defnyddio'n effeithlon i fynd i'r afael â throseddoldeb. Bydd llwybrau hyfforddiant ar orfodi'r gyfraith yn cynhyrchu ac yn cynnal cronfa o swyddogion gwybodaeth ac ymchwilwyr medrus iawn. Byddwn hefyd yn cryfhau galluoedd technolegol ar draws y system, gan gynnwys adolygu a chryfhau'r gwaith o storio crypto-asedau yn ddiogel yn ystod achosion cyfreithiol. Wrth i waith gorfodi'r gyfraith ddechrau atafaelu mwy a mwy o grypto-asedau, mae'n hanfodol bod storio crypto-asedau yn cael ei wneud yn fwy diogel i helpu i sicrhau bod asedau'n gallu cael eu dychwelyd i berchnogion, eu dychwelyd i ddioddefwyr neu eu gwerthu.

**2.21.** Oherwydd datblygiadau rheoleiddio yn y DU ac mewn economïau eraill, mae'n debygol y bydd troseddwyr yn parhau i newid i ddefnyddio cyfnewidfeydd a gwasanaethau llai rheoledig, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u lleoli mewn awdurdodaethau sy'n cael eu rheoleiddio'n wael neu sy'n cael eu rheoleiddio'n llai trylwyr. I liniaru'r risg hon, byddwn yn parhau i weithio ar y cyd ag awdurdodaethau eraill i sicrhau ymatebion rhyngwladol effeithiol, cydgysylltiedig a chadarn i reoleiddio, goruchwylio a, lle bo'n briodol, erlyn cwmnïau crypto-asedau, gan osgoi bylchau yn ein dulliau gweithredu. Er enghraifft, mae'r FCA yn gweithio'n agos a dwy ffordd gyda chymheiriaid rhyngwladol i gyfnewid gwybodaeth a rhannu'r hyn rydym wedi'i ddysgu am ein dull o reoleiddio'r sector y tu hwnt i ofynion cychwynnol AML/CFT y DU.

**2.22.** Gan ategu'r partneriaethau rhyngwladol hyn, bydd y DU yn parhau i chwarae rhan flaenllaw mewn cyrff pennu safonau byd-eang fel FATF a'r Bwrdd Sefydlogrwydd Ariannol (FSB). Mae ein harweinyddiaeth yn y fforymau hyn yn hanfodol i siapio fframweithiau cyffredin, argymhellion polisi ac egwyddorion ar gyfer marchnadoedd crypto-asedau mewn ffordd sy'n adlewyrchu dull seiliedig ar risg y DU o ymdrin â throseddu economaidd.

**Allwedd:**

**ML** Leihau gwyngalchu arian ac adennill mwy o asedau troseddol.

**S** Ymladd yn erbyn cleptocratiaeth ac osgoi sancsiynau.

**F** Lleihau twyll.

| # | Cam gweithredu | Perchennog | Sefydliadau Cefnogi | Cerrig milltir | Dyddiad Cyflawni |
|---|---|---|---|---|---|
| **7.** | Gwella'r gallu i orfodi'r gyfraith a'r ac erlyn y defnydd o asedau crypto/rhith-asedau i wyngalchu arian anghyfreithlon. **ML** **S** **F** | NCA. | HO, HMT, CPS, NPCC, CoLP, HMRC, FCA. | Sefydlu strategaeth asedau rhithiol a chell aml-asiantaeth (NECC). | Ch4 2023. |
| | | | | Sefydlu cyfleoedd hyfforddi ar gyfer swyddogion rheng flaen, ymchwilwyr ariannol, swyddogion cudd-wybodaeth/gallu i fynd ar drywydd dadansoddwyr, a gweithwyr proffesiynol crypto achrededig (NECC). | Ch4 2023. |
### Effaith seilwaith a diwygiadau i droseddu economaidd ehangach ar fynd i'r afael â thwyll

**4.10.** Nid yw'r gweithgarwch i leihau twyll wedi'i gyfyngu i'r camau gweithredu a nodir yn y Strategaeth Dwyll neu gan Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus. Bydd llawer o'r gweithgarwch ehangach a nodir yng ngweddill y Cynllun hwn hefyd yn cefnogi ymdrechion i fynd i'r afael â thwyll.

**4.11.** Er enghraifft, bydd y Bil Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol yn gwella diogelwch gwybodaeth bersonol a chyfeiriadau a ddarperir i Dŷ'r Cwmnïau er mwyn diogelu unigolion yn well rhag defnydd twyllodrus o'u hunaniaeth. Bydd y Bil yn cryfhau pwerau i fynd i'r afael â thwyll, gan gynnwys drwy:

- Rhoi mwy o bwerau i'r Cofrestrydd Cwmnïau gyfarwyddo cwmnïau i newid eu henwau, lle mae'n ymddangos bod enwau wedi cael eu sefydlu i gamarwain yn fwriadol.
- Caniatáu ar gyfer dyrannu codau adnabod unigryw ar gyfer unigolion, i gysylltu holl benodiadau eu cyfarwyddwyr mewn un lle.
- Hwyluso'r broses o rannu gwybodaeth yn well rhwng busnesau penodol sy'n cael eu rheoleiddio ynghylch amheuaeth o wyngalchu arian, twyll a throseddau economaidd eraill, gan eu galluogi i gymryd dull mwy rhagweithiol o atal troseddau economaidd.
- Darparu pwerau ychwanegol i orfodi'r gyfraith, er mwyn iddynt allu atafaelu, rhewi ac adfer crypto-asedau yn gynt ac yn haws, sy'n enillion o droseddu neu sy'n gysylltiedig â gweithgarwch anghyfreithlon.

**4.12.** Yn yr un modd, o ran crypto-asedau, bydd amgylchedd rheoleiddio ymatebol ac addasol, ynghyd â gwell ymateb o ran gorfodi'r gyfraith a gwell technoleg a diogelwch, hefyd yn helpu i ddiogelu'r cyhoedd rhag twyll.

**4.13.** Drwy wella llif gwybodaeth, cael gwared â rhwystrau, a mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â safoni a'r gallu i ryngweithredu, byddwn yn gallu defnyddio data a gwybodaeth yn well ar draws y system i fynd i'r afael â phob trosedd economaidd.

**4.14.** Bydd ein gwaith i ddatblygu strategaeth gweithlu troseddu economaidd yn edrych ar sgiliau, cadw a phartneriaethau ar draws y gweithlu troseddau economaidd.

**4.15.** Fel y soniwyd uchod, mae One Login GOV.UK – un datrysiad mewngofnodi a hunaniaeth ddigidol newydd ar gyfer y llywodraeth gyfan – hefyd yn sicrhau bod technolegau diogelu hunaniaeth uwch ar gael yn rhwydd i wasanaethau'r sector cyhoeddus. Mae'n disodli systemau dyblyg ac ynysig, gan roi seilwaith digidol hollbwysig i'r llywodraeth er mwyn mynd i'r afael yn fwy effeithiol â thwyll a chamddefnyddio hunaniaeth.

# Lleihau'r bygythiad y mae arian anghyfreithlon rhyngwladol yn ei achosi i'r DU a buddiannau'r DU

**5.1.** Mae cyllid anghyfreithlon rhyngwladol yn galluogi ac yn hwyluso bygythiadau gan wladwriaethau, terfysgaeth, osgoi sancsiynau, colli refeniw treth, llygredigaeth, dargyfeirio arian o wasanaethau cyhoeddus, a dadsefydlogi economïau sy'n datblygu, yn enwedig mewn gwledydd sy'n adfer ar ôl gwrthdaro. Fel lle deniadol i fyw, buddsoddi a chynnal busnes, mae'r DU yn cael ei defnyddio fel ffynhonnell, man pontio a chyrchfan ar gyfer cyllid anghyfreithlon a gynhyrchir o droseddau yn y DU a thramor. Mae troseddwyr yn y DU yn aml yn gwyngalchu arian i awdurdodaethau tramor lle gallant fwynhau eu helw.

**5.2.** Mae cyllid anghyfreithlon yn broblem trawswladol sy'n manteisio ar y system ariannol fyd-eang ryng-gysylltiedig iawn. Fel canolfan ariannol fyd-eang flaenllaw, mae gan y DU rôl hollbwysig i'w chwarae o ran mynd i'r afael â'r broblem yn rhyngwladol, sydd yn ei thro yn ein helpu i ddiogelu uniondeb a sefydlogrwydd system ariannol y DU. Mae mynd i'r afael â bygythiadau dramor yn lleihau'r bygythiad a wynebwn gartref. Mae mynd i'r afael â'r bygythiadau hyn yn y ffynhonnell hefyd yn lleihau'r effaith ar amcanion rhyngwladol ehangach y DU.

**Astudiaeth achos:**
Cafodd rheolwr Rhwydwaith Rheolwyr Rhyngwladol a oedd yn smyglo miliynau o bunnoedd o arian troseddol o'r DU ei garcharu ym mis Gorffennaf 2022 am naw mlynedd a saith mis ar ôl ymchwiliad yr NCA. Trefnodd y rheolydd deithiau i rwydwaith cludo arian, a oedd rhyngddynt yn smyglo £104 miliwn o'r DU i'r Emiraethau Arabaidd Unedig rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Hydref 2020. Bu'r grŵp yn casglu gan Grwpiau Troseddau Cyfundrefnol ac yn mynd ag ef i dai cyfrif, lle'r oedd yn cael ei becynnu dan wactod mewn casys a oedd yn cynnwys tua £500,000 yr un ac yn cael ei chwistrellu gyda choffi neu beraroglydd mewn ymgais i osgoi cael ei ganfod gan gŵn Llu'r Ffiniau. Hedfanodd y cludwyr yn y dosbarth busnes er mwyn cael y lwfans bagiau ychwanegol a datgan yr arian wrth gyrraedd Dubai, gan ddefnyddio cwmni blaen mewn datganiadau tollau. Gyda chefnogaeth Swyddogion Cyswllt Rhyngwladol yr NCA a'r NECC, gweithiodd y tîm ymchwilio'n agos gydag asiantaeth gorfodi cyfraith yr Emiraethau Arabaidd Unedig, gan gasglu digon o dystiolaeth yn ymwneud â'r rheolwr fel ei fod wedi pledio'n euog.

**5.3.** Ers y Cynllun Troseddu Economaidd cyntaf, mae'r cyd-destun strategol ar gyfer mynd i'r afael â chyllid anghyfreithlon rhyngwladol wedi esblygu. Roedd Adolygiad Integredig 2021 yn cydnabod cyllid anghyfreithlon yn benodol fel bygythiad diogelwch cenedlaethol, oedd yn ariannu gweithredwyr malaen a niweidio ein henw da byd-eang gydag asedau llwgr sy'n dod i'r DU.

**Astudiaeth achos:**
Er mwyn helpu gwledydd i fynd i'r afael â gwendidau a chynnal diwygiadau o ran cyllid anghyfreithlon, mae'r DU yn darparu cymorth dwyochrog strategol a thactegol. Gan ddefnyddio dull cyfannol, drwy gydweithrediad arbenigwyr yn y DU ac arweinwyr cyllid anghyfreithlon dramor, mae'r DU wedi datblygu amrywiaeth o raglenni cyflawni i gefnogi cydymffurfiad â safonau'r Tasglu Gweithredu Ariannol (FATF).
Mewn un wlad yn Nwyrain Affrica, roedd hyn yn cynnwys helpu'r llywodraeth i ymateb i argymhellion FATF drwy gymorth technegol ar ddulliau strategol o ymchwilio i gyllid gan derfysgwyr, gweithredu sancsiynau ariannol wedi'u targedu a goruchwylio atal gwyngalchu arian, a'i helpu i wreiddio newidiadau sefydliadol hirdymor fel gwell cydweithrediad rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat. Mae'r wlad bellach yn cael ei chydnabod fel arweinydd o ran mynd i'r afael â chyllid anghyfreithlon yn ei rhanbarth, gan gyrraedd safonau rhyngwladol a rhannu ei gwersi â gwledydd cyfagos.

**5.4.** Gan adeiladu ar yr ymrwymiadau a nodir yn y Cynllun cyntaf, bydd y llywodraeth yn parhau i arwain ymdrechion i gryfhau safonau rhyngwladol a gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod y rhain yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Er mwyn cyflawni hyn, bydd y DU yn parhau i wthio ymdrechion o fewn ffora allweddol, fel FATF, G7, a G20: yn mynd ati'n rhagweithiol i gyflwyno'r achos dros ddiwygio'r system ryngwladol yn gymesur ac wedi'i thargedu er mwyn mynd i'r afael â chyllid anghyfreithlon. Gan ategu ein harweinyddiaeth strategol yn y fforymau hyn, bydd y DU yn parhau i ddarparu cymorth dwyochrog gan ddefnyddio arbenigwyr cyllid anghyfreithlon yn y DU a thramor.

**5.5.** Byddwn yn defnyddio ein dylanwad technegol a diplomyddol i gryfhau ymhellach ein partneriaethau â chanolfannau ariannol eraill, yn enwedig yr Unol Daleithiau, yr Emiraethau Arabaidd Unedig, a'n Tiriogaethau Tramor a Thiriogaethau Dibynnol ar y Goron (CD ac OT). Cefnogir hyn gan waith ar lefel dactegol i wella ein dealltwriaeth o fygythiadau yn barhaus, gan gynnwys drwy gelloedd cyhoeddus-preifat. Rydym wedi ymrwymo o hyd i fynd i'r afael â chyllid anghyfreithlon sy'n effeithio ar wledydd sy'n datblygu, gan gynnwys drwy waith Uned Llygredd Rhyngwladol yr NCA a gwadu arian anghyfreithlon i fwy o droseddwyr. Bydd mwy o adnoddau UKFIU yn cynnwys staff sydd wedi ymrwymo i gysylltu rhyngwladol, gan arwain at ddealltwriaeth fanylach o wyngalchu arian a bygythiadau o ran ariannu terfysgaeth.

**5.6.** Gan ddefnyddio ymateb cyfannol a chydlynol gan lywodraeth y DU, gan ddefnyddio arweinyddiaeth ryngwladol FCDO yn ogystal â dulliau gorfodi'r gyfraith a galluoedd Gwasanaeth Erlyn y Goron ynghylch cyllid anghyfreithlon rhyngwladol, byddwn yn ymateb i'r bygythiad, gan ategu ein hymdrechion domestig gyda gweithredu rhyngwladol.

**Allwedd:**

**ML** Leihau gwyngalchu arian ac adennill mwy o asedau troseddol.

**S** Ymladd yn erbyn cleptocratiaeth ac osgoi sancsiynau.

**F** Lleihau twyll.

| # | Cam gweithredu | Perchennog | Sefydliadau Cefnogi | Cerrig milltir | Dyddiad Cyflawni |
|---|---|---|---|---|---|
| **28.** | Gwella ein dealltwriaeth o'r bygythiad ac ehangu ymateb strategol dan arweiniad NEC i awdurdodaethau risg penodol - gan gynnwys gweithio i fyny'r gadwyn pan fo'n briodol. **ML** **S** **F** | NECC. | HO, FCDO. | Sefydlu prosiectau penodol i wledydd er mwyn ymateb yn well i sectorau a gweithgareddau mewn awdurdodaethau allweddol sy'n peri'r risgiau mwyaf o ran cyllid anghyfreithlon i'r DU (NECC). | Parhaus. |
| | | | | Creu asesiadau gwybodaeth penodol i awdurdodaethau (NAC).<br><br>Production of jurisdiction specific intelligence assessments (NAC). | Parhaus. |
| | | | | Defnyddio mwy ar y fframwaith cyhoeddus-preifat i roi rhybuddion i'r diwydiant am risgiau cyllid anghyfreithlon rhyngwladol (NECC). | Ch3 2023. |

| # | Cam gweithredu | Perchennog | Sefydliadau Cefnogi | Cerrig milltir | Dyddiad Cyflawni |
|---|---|---|---|---|---|
| **29.** | Darparu cymorth technegol i wledydd cymwys â blaenoriaeth i wella'r ffordd mae atal gwyngalchu arian, cyllid gwrthderfysgaeth byd-eang yn cael ei roi ar waith, a safonau gwrth-gyllido lluosog, a gefnogir lle bo'n briodol gan y sector preifat ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith. **ML** **S** | HMT. | HO, FCDO. | Darparu llif o 4 prosiect y flwyddyn i gefnogi gwledydd blaenoriaeth sy'n gymwys ar gyfer Cymorth Datblygu Tramor i fodloni safonau FATF a chreu amddiffyniad effeithiol a chyfannol i gyllid anghyfreithlon. | 2023-2025. |
| | | DBT. | HMT, FCDO. | Defnyddio arbenigedd y DU mewn gwledydd â blaenoriaeth i ddarparu cymorth technegol i wella tryloywder o ran perchnogaeth a rheolaeth endidau corfforaethol (DBT). | 2023-2026. |
| **30.** | Cryfhau safonau adfer asedau rhyngwladol i wella canlyniadau adennill asedau trawsffiniol. **ML** **S** | HMT. | NCA, CPS, HO, FCDO. | Mae prosiectau FATF ar adfer asedau yn arwain at fabwysiadu safonau cryfach a ddefnyddir yn rownd nesaf gwerthusiadau cydfuddiannol FATF gyda gwledydd adolygiad cymheiriaid (HMT). | Ch2 2025. |
| **31.** | Cryfhau ein deialog strategol gyda'r CDs a'r OTs ar y cyd i fynd i'r afael ag osgoi sancsiynau, gwyngalchu arian ac ariannu terfysgaeth. **ML** **S** | HO, FCDO, HMT. | CThEM, MOJ. | Mwy o gydweithredu gweinidogol a thechnegol ar faterion cyllid anghyfreithlon (HO,FCDO, HMT). | Parhaus. |

| # | Cam gweithredu | Perchennog | Sefydliadau Cefnogi | Cerrig milltir | Dyddiad Cyflawni |
|---|---|---|---|---|---|
| **32.** | Hyrwyddo, a lle bo'n briodol cefnogi, cynyddu tryloywder cofrestrau perchnogaeth fuddiol mewn CDs ac OTs, fel rhan o ymgyrch ehangach ar dryloywder perchnogaeth fuddiol yn rhyngwladol.<br>**ML** **S** **F** | FCDO, HO. | DBT, CH. | Mae gan CDs ac OTs gofrestrau perchnogaeth buddiol sydd ar gael i'r cyhoedd ac sy'n weithredol ac o ansawdd uchel, gan gydnabod hawliau dynol ac ystyriaethau diogelu data. | Ch4 2023. |
| | | | | Astudiaethau achos o'r DU yn dylanwadu ar y G7, G20 llywodraethau eraill er mwyn sefydlu cofrestrau cenedlaethol o berchnogaeth buddiol cwmnïau neu gymryd camau i'w gwneud yn fwy effeithiol (HO, FCDO). | Ch2 2025. |

# Diwygiadau a galluoedd system drawsbynciol

### Cyflwyniad

**6.1.** Er bod y camau gweithredu a nodir uchod yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â bygythiadau penodol, mae yna nifer o ddiwygiadau a galluoedd trawsbynciol sylfaenol a fydd yn sail i'r gweithgarwch hwn ac yn ei gefnogi. Bydd yr ymrwymiadau canlynol yn helpu i gyflawni gwelliannau ar draws y system trosedd economaidd gyfan, ac felly'n chwarae rhan ganolog yn y Cynllun uchelgeisiol hwn i fynd i'r afael â thwyll, gwyngalchu arian, cleptocratiaeth ac osgoi sancsiynau.

### Blaenoriaethu systemau

**6.2.** Mae cydweithio cyhoeddus-preifat ar droseddu economaidd yn hollbwysig, gydag ymdrechion ar y cyd yn arwain at effaith amlwg ar y bygythiad. Mae'r cydweithio presennol, drwy strwythurau fel JMLIT+, wedi bod yn gadarnhaol ond mae'r llywodraeth yn cydnabod bod modd gwneud mwy, yn enwedig i gydlynu a blaenoriaethu ein hymateb ar y cyd.

**6.3.** Bydd nifer o weithgareddau hanfodol a gorfodol yn parhau ar gyfer y diwydiant a'r llywodraeth. Fodd bynnag, bydd cyfeirio adnoddau cyhoeddus-preifat at feysydd blaenoriaeth yn ein galluogi i gynyddu ein heffaith ar y cyd yn erbyn y bygythiad.

**6.4.** Bydd y llywodraeth yn gweithio gyda'r sector preifat i ddiffinio un fersiwn glir o'r gwirionedd ar gyfer ein dealltwriaeth o'r bygythiad a sefydlu fframwaith sy'n galluogi'r system troseddu economaidd i bennu blaenoriaethau ar gyfer ymateb i fygythiadau cyhoeddus-preifat ar y cyd. Byddwn yn edrych ar sut mae cefnogi'r sectorau sy'n cael eu rheoleiddio i ganolbwyntio eu gweithgareddau, yn unol â safonau rhyngwladol ar gyfer atal gwyngalchu arian ac adnoddau presennol fel yr Asesiad Risg Cenedlaethol o Wyngalchu Arian a Chyllido Terfysgwyr, yn erbyn y meysydd blaenoriaeth hyn i leihau'r bygythiad a achosir gan droseddu economaidd.

**6.5.** Bydd hyn yn cryfhau rôl arwain systemau'r NECC, gan ei alluogi i lywio blaenoriaethau ar y cyd â rheoleiddwyr a'r sector cyhoeddus ehangach. Bydd yn caniatáu i ni sicrhau gyda'n gilydd ein bod yn manteisio i'r eithaf ar adnoddau yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus ac yn cyfarwyddo'r adnoddau hyn yn briodol i leihau'r bygythiad.

**Allwedd:**

**ML** Leihau gwyngalchu arian ac adennill mwy o asedau troseddol.

**S** Ymladd yn erbyn cleptocratiaeth ac osgoi sancsiynau.

**F** Lleihau twyll.

| # | Cam gweithredu | Perchennog | Sefydliadau Cefnogi | Cerrig milltir | Dyddiad Cyflawni |
|---|---|---|---|---|---|
| **33.** | Cryfhau rôl yr NECC fel arweinydd y system sy'n gyfrifol ar y cyd â rheoleiddwyr a'r sector cyhoeddus ehangach am lywio blaenoriaethau ar gyfer y system troseddau economaidd a diffinio un safbwynt ar fygythiadau troseddau economaidd, ac ar y cyd, nodi a chytuno ar weithgareddau y gellir eu dadflaenoriaethu i alluogi mwy o ffocws ar weithgaredd defnydd uchel. **ML** **S** **F** | NECC, FCA, UKF. | HO, HMT, OPBAS, NPCC/CoLP, goruchwylwyr AML. | Adolygu pa weithgareddau y gallai busnesau yn y sector sy'n cael ei reoleiddio eu cynyddu neu eu lleihau (UKF, cynrychiolwyr y sector a reoleiddir). | Ch4 2023. |
| | | | | Nodi mecanweithiau ar gyfer darparu un fersiwn ddeinamig a chyfannol o'r gwirionedd ynghylch y bygythiad o drosedd economaidd (NECC, HMT, HO, FCA, CoLP). | Ch4 2023. |
| | | | | Sefydlu sut mae blaenoriaethau'n cael eu pennu ar draws y system troseddau economaidd, a llywodraethu priodol (NECC, pawb). | Ch4 2023. |
| | | | | Archwilio sut mae blaenoriaethu yn helpu i ddyrannu adnoddau'n well yn erbyn meysydd allweddol i leihau'r bygythiad, a mecanweithiau i sicrhau nad yw'r adnodd hwn yn cael ei golli. (UKF, cynrychiolwyr y sector a reoleiddir). | Ch1 2024. |

| # | Cam gweithredu | Perchennog | Sefydliadau Cefnogi | Cerrig milltir | Dyddiad Cyflawni |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Nodi unrhyw rwystrau rhag ymateb yn effeithiol i'r blaenoriaethau hyn, gan gynnwys sut y gellir dyrannu adnoddau i'w cefnogi, o fewn HMG a diwydiant (Pawb). | Ch1 2024. |
| | | | | Dod o hyd i ddangosyddion i fesur effaith cynyddu adnoddau i gefnogi ardaloedd blaenoriaeth a lleihau adnoddau mewn meysydd eraill (Pob un). | Ch1 2024. |
| | | | | Sefydlu fframwaith blaenoriaethu (Pob un). | Ch3 2024. |

## Rhannu gwybodaeth, data a thechnoleg

6.6. Mae llawer iawn o wybodaeth ar gael ar draws y system troseddu economaidd, fodd bynnag, ar hyn o bryd mae rhywfaint ohono wedi'i leoli mewn gwahanol sefydliadau, mewn gwahanol fformatau gyda phyrth cyfreithiol a thechnolegol aneglur ar gyfer ei rhannu. Hyd yn oed lle mae llif gwybodaeth yn dal yn ganiataol, mae'r diffyg safoni a'r gallu i ryngweithredu data ar draws y cyd-destun troseddu economaidd yn effeithio ar ein gallu i weld, canfod ac atal gweithgarwch anghyfreithlon. Mae'r Bil Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol a diwygiadau i Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR) yn dileu'r rhwystrau deddfwriaethol i rannu data am droseddau economaidd. Dyma'r amser i fanteisio ar y cyfleoedd hynny.

6.7. O dan strategaeth newydd ar ddata troseddau economaidd cyhoeddus-preifat, byddwn yn cynyddu'r defnydd o'r data sydd ar gael ar draws yr ecosystem er mwyn atal, canfod a mynd ar drywydd troseddau economaidd yn well. Bydd y strategaeth yn cynnwys y newidiadau llywodraethu, blaenoriaethu a thechnegol sy'n angenrheidiol i reoli data'n well ar draws y system.

6.8. Ar ben hynny, gan weithio ar draws ffiniau cyhoeddus, preifat a rhyngwladol, byddwn yn:

- Gwella llif gwybodaeth rhwng endidau'r sector a reoleiddir.
- Gwella'r llif gwybodaeth rhwng sefydliadau cyhoeddus a phreifat, gan gynnwys goruchwylwyr.
- Gwella llif gwybodaeth rhwng sefydliadau cyhoeddus.
- Nodi a mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal rhannu gwybodaeth yn rhyngwladol.
- Parhau i ymgysylltu â diwydiant a chymdeithas sifil ynghylch y potensial ar gyfer technoleg newydd i wella ein hymdrechion i fynd i'r afael â throseddu economaidd.

**Allwedd:**

**ML** Leihau gwyngalchu arian ac adennill mwy o asedau troseddol.

**S** Ymladd yn erbyn cleptocratiaeth ac osgoi sancsiynau.

**F** Lleihau twyll.

| # | Cam gweithredu | Perchennog | Sefydliadau Cefnogi | Cerrig milltir | Dyddiad Cyflawni |
|---|---|---|---|---|---|
| **34.** | Cynhyrchu a gweithredu'n raddol Strategaeth newydd ar gyfer Data Troseddau Economaidd Preifat Cyhoeddus sy'n gwella'r defnydd o'r data sydd ar gael ar draws yr ecosystem er mwyn atal, canfod a mynd ar drywydd troseddau economaidd yn well. **ML** **S** **F** | HO-UK Cyllid. | NECC, PSFA, HMT, OPBAS, CoLP, DBT (Tŷ'r Cwmnïau), HMRC, FCA AML Sector a Reoleiddir, Goruchwylwyr AML. | **Dylunio Strategaeth** Adolygiad ac argymhelliad cyfannol o flaenoriaethau ECP a setiau data cysylltiedig (cyhoeddus a phreifat gan ystyried sectorau cysylltiedig arall y tu allan i wasanaethau ariannol) (HO, UKF). | Ch4 2023. |
| | | | | Creu trywydd cyflawni i nodi sut a phryd y byddai newidiadau arfaethedig yn cael eu cyflwyno (HO, UKF). | Ch1 2024. |
| | | | | **Gweithredu** Gweithredu canfyddiadau o adolygiad cyfannol, a thrywydd cyflawni i ddatblygu strategaeth data troseddau economaidd cyhoeddus-preifat (HO, pawb). | Ch4 2024. |
| | | | | Datblygu cynlluniau rhannu data cyhoeddus-preifat, gan adeiladu ar waith y Cynllun Peilot Cyfuno dan arweiniad NECC (NECC). | Ch1 2024. |
| | | | | Defnyddio un llwyfan dadansoddi rhwydwaith ar gyfer defnydd trawslywodraethol (PSFA). | Ch2 2024. |
| | | | | Cynyddu galluoedd NDEC ynghylch Data Troseddau Economaidd (NECC). | Ch2 2024. |

| # | Cam gweithredu | Perchennog | Sefydliadau Cefnogi | Cerrig milltir | Dyddiad Cyflawni |
|---|---|---|---|---|---|
| **35.** | Adolygu a gwella rhannu data i gefnogi'r ymateb i dwyll yn y sector cyhoeddus. **F** | CO/PSFA. | NECC, PSFA, HMT, OPBAS, CoLP, DBT (Tŷ'r Cwmnïau), HMRC, FCA AML Sector a Reoleiddir, Goruchwylwyr. | Treialu ffrwd data gwell o amrywiaeth o ffynonellau i'w defnyddio gan y PSFA i atal twyll yn y llywodraeth (PSFA, NCA a sefydliadau ategol). | Ch1 2024. |
| | | | | Bydd PSFA a NCA yn cydweithio i gwmpasu ffrwd data gwell i'w defnyddio gan y PSFA i atal twyll yn y llywodraeth (PSFA a'r NCA). | Ch1 2024. |
| | | | | Treialu Partneriaethau Data Troseddau Economaidd PSFA gyda'r sector bancio (haen 1/banciau her) (PSFA). | Ch1 2025. |
| **36.** | Adolygu a gwella'r ffordd y mae gwybodaeth yn llifo ac yn cael ei defnyddio ar draws y system troseddu economaidd, er mwyn cyfrannu at well prosesau sy'n seiliedig ar risg Sector, penderfyniadau AML. **ML** **S** **F** | HO. | NECC, HMT, UKFIU, NECC, OPBAS, DBT (Tŷ'r Cwmnïau), HMRC FCA, goruchwylwyr AML. | **Rhannu preifat - preifat:** Adolygu'r camau nesaf a'r atebion posibl ynghylch rhannu preifat i breifat, gan gynnwys cymhellion goruchwylio (HO). | Ch3 2023. |
| | | | | **Rhannu cyhoeddus - preifat:** Gweithredu porth MLR 52 (i wella ansawdd rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau gorfodi'r gyfraith, CH, BEIS a goruchwylwyr (LEA, NCA, pob goruchwyliwr). | Ch3 2023. |

| # | Cam gweithredu | Perchennog | Sefydliadau Cefnogi | Cerrig milltir | Dyddiad Cyflawni |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Canfod a mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal mwy o rannu gwybodaeth rhwng asiantaethau gorfodi'r gyfraith, goruchwylwyr cyrff proffesiynol a'r sector preifat (HO/HMT/OPBAS/NECC/PBS). | Ch1 2024. |
| | | | | Archwilio ymgysylltu ag asiantaethau sy'n ymwneud ag Amgylchedd, Cymdeithasol a Llywodraethu (ESG) ynghylch sut y gellir rhannu gwybodaeth am swm a ffynhonnell yr arian sy'n gysylltiedig â throseddu amgylcheddol er mwyn helpu i adnabod a mynd i'r afael â'r troseddau hynny a gwyngalchu arian cysylltiedig. | Ch4 2024. |
| | | | | **Rhannu cyhoeddus - cyhoeddus:** Adolygiad ac argymhellion ar gyfer rhannu gwybodaeth yn well rhwng cyrff cyhoeddus (HO). | Ch1 2024. |
| | | | | **Rhyngwladol:** Adolygu ac argymhellion er mwyn rhannu gwybodaeth yn well yn rhyngwladol. | Ch3 2024. |

## Gallu asiantaethau gorfodi'r gyfraith a strategaeth gweithlu preifat cyhoeddus

**6.9.** O ystyried maint y troseddu economaidd, a chymhlethdod llawer o ymchwiliadau, mae'n hollbwysig sicrhau bod y llywodraeth yn parhau i gynyddu ein gallu a'n sgiliau gorfodi'r gyfraith os ydym am gyflawni'r canlyniadau a ddymunir.

**6.10.** Mae'r Cynllun hwn yn ein hymrwymo i gynyddu capasiti ar draws arweinyddiaeth, gwybodaeth, ymchwiliadau ac adnoddau cyfreithiol mewn perthynas â'r bygythiad. Rydym hefyd yn cryfhau adnoddau ar yr haenau cenedlaethol a rhanbarthol, drwy fuddsoddi yn yr NCA a'r ROCUs, gan adlewyrchu natur wasgaredig troseddu economaidd a sicrhau mwy o werth am arian drwy gyfuno adnoddau arbenigol.

**6.11.** Dros oes y Cynllun, byddwn yn cynyddu capasiti gorfodi'r gyfraith, sydd wedi'i neilltuo i droseddau economaidd, yn sylweddol. Byddwn yn darparu cynnydd o dros 475 FTEs ar draws y system wedi'u neilltuo i fynd i'r afael â gwyngalchu arian ac adfer asedau. Mae hyn yn cynnwys cynnydd o dros 60 FTE ar gyfer Gwasanaeth Erlyn y Goron, gan gynyddu ein gallu i adennill asedau troseddol.

**6.12.** Er mwyn darparu ymateb gwirioneddol effeithiol, mae arnom hefyd angen mwy o gydweithio a rhannu sgiliau rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat. Drwy'r Cynllun hwn, byddwn yn cyflwyno strategaeth gweithlu gyfannol newydd sy'n addas i ymateb i fygythiadau yn y dyfodol, gan ddatblygu llif gwell o recriwtiaid medrus i'r sector cyhoeddus, gan ddefnyddio galluoedd y sector preifat a phartneriaethau'r diwydiant, dylunio llwybrau hyfforddi gwell, a sicrhau ein bod yn recriwtio, ac yn cadw gweithlu talentog, sydd yn hollbwysig. Bydd y PSFA hefyd yn dod ag arbenigedd traws-sector at ei gilydd i greu ymarfer a chanllawiau ar gyfer mynd i'r afael â thwyll yn y sector cyhoeddus.

**6.13.** Dan arweiniad Heddlu Dinas Llundain, bydd canolfan newydd yn helpu i ddarparu ymateb plismona lleol, rhanbarthol a chenedlaethol mwy cydlynol i droseddau twyll, economaidd a seiberdroseddu. Bydd y ganolfan yn darparu arbenigedd, adnoddau a bydd yn uno ac yn gwella arweinyddiaeth y Llu Cenedlaethol Arweiniol ar gyfer twyll a phortffolios Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu o seiberdroseddu a throseddu economaidd, ac yn gosod gweledigaeth ar gyfer plismona i weithredu o fewn y system gorfodi'r gyfraith ehangach dan arweiniad yr NECC ar gyfer troseddu economaidd, a'r Uned Seiberdrosedd Genedlaethol ar gyfer seiberdroseddu.

**Allwedd:**

**ML** Leihau gwyngalchu arian ac adennill mwy o asedau troseddol.

**S** Ymladd yn erbyn cleptocratiaeth ac osgoi sancsiynau.

**F** Lleihau twyll.

| # | Cam gweithredu | Perchennog | Sefydliadau Cefnogi | Cerrig milltir | Dyddiad Cyflawni |
|---|---|---|---|---|---|
| **37.** | Darparu cynnydd o 475 FTEs ar draws arweinyddiaeth, gwybodaeth ac ymchwilio mewn perthynas â'r bygythiad a chapasiti erlyn yn yr NCA, Heddlu Dinas Llundain, ac Unedau Troseddu Cyfundrefnol Rhanbarthol CThEF ac Adran Enillion Troseddau Gwasanaeth Erlyn y Goron i wella'r gwaith o ganfod ac amharu ar wyngalchu arian, defnyddio crypto a mulod arian yn droseddol, a chynyddu'r broses o adfer asedau. **ML** **S** **F** | NCA, NECC, CoLP, ROCUs, HMRC, CPS. | HO. | 160 FTE erbyn diwedd FY2023/24 (Pawb). | Ch1 2024. |
| | | | | 285 FTE erbyn diwedd FY2024/25 (Pawb). | Ch1 2025. |
| | | | | 475 FTE erbyn diwedd FY2025/26 (Pawb). | Ch1 2026. |

| # | Cam gweithredu | Perchennog | Sefydliadau Cefnogi | Cerrig milltir | Dyddiad Cyflawni |
|---|---|---|---|---|---|
| **38.** | Datblygu strategaeth sgiliau a phobl ym maes troseddu economaidd a fydd yn ystyried y cyflenwad, y sgiliau a'r galluoedd sydd eu hangen i orfodi'r gyfraith i fynd i'r afael â Throseddu Economaidd, c ystyried partneriaethau gyda'r diwydiant (gan gynnwys archwilio secondiadau). **ML** **S** **F** | NECC, CoLP. | HO, PSFA, UK Finance. | Cwblhau cynllun prosiect sy'n nodi cerrig milltir tymor byr a thymor hir (NECC a CoLP). | Ch4 2023. |
| | | | | Cyflawni atebion tymor byr (NECC a CoLP). | Ch2 2024. |
| | | | | Cyflawni atebion tymor hir (NECC a CoLP). | Ch4 2025. |

### System cyfiawnder troseddol

**6.14.** Er mwyn darparu ymateb system gyfan i droseddau economaidd, mae angen i'r llywodraeth barhau i sicrhau bod gan erlynwyr yr arfau iawn, a bod gan system y llysoedd y capasiti a'r gallu i fynd i'r afael â throseddu economaidd a sicrhau cyfiawnder. Rydym yn cydnabod bod dod o hyd i atebion sy'n gwneud y system cyfiawnder troseddol yn fwy effeithlon drwy ddiwygio cyfiawnder troseddol yn amserol yn y cyd-destun economaidd ehangach.

**6.15.** Mae'r llywodraeth yn cydnabod ei bod yn anodd dal cyrff corfforaethol i gyfrif am eu camweithredu troseddol, yn enwedig troseddau economaidd. Ym mis Tachwedd 2020, i gydnabod hyn, comisiynodd y llywodraeth Gomisiwn y Gyfraith i gynnal archwiliad trylwyr o'r gyfraith ar atebolrwydd corfforaethol troseddol a nodi opsiynau ar gyfer diwygio deddfwriaethol. Yn dilyn cyhoeddi'r adolygiad ym mis Mehefin 2022, rydym yn gweithio ar y cyd â chydweithwyr ar draws y llywodraeth i ystyried yr opsiynau a gyflwynwyd gan Gomisiwn y Gyfraith i wella cadernid protocolau troseddau economaidd y DU i sicrhau na all unrhyw unigolyn nac endid anwybyddu'r gyfraith drwy gyfansoddiad a threfniadau llywodraethu sefydliadol cymhleth, neu fel arall.

**6.16.** Gan adeiladu ar yr opsiynau cryfaf a gyflwynwyd gan Gomisiwn y Gyfraith i ddiwygio atebolrwydd troseddol corfforaethol, mae'r llywodraeth wedi ymrwymo i gyflwyno deddfwriaeth seiliedig ar athrawiaeth adnabod i gryfhau ei chymhwyso i'r holl strwythurau corfforaethol, gan gynnwys sefydliadau mawr, ac atal achosion lle gall corfforaethau osgoi atebolrwydd am gyflawni troseddau, gan gynnwys troseddau economaidd. Er mwyn sbarduno newid diwylliannol mawr sy'n annog cwmnïau i wneud mwy i ddatrys twyll, y math mwyaf o drosedd, mae'r llywodraeth hefyd wedi ymrwymo i gyflwyno trosedd methiant i atal twyll yn y Bil Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol (ECCT) sy'n dal cwmnïau'n atebol yn droseddol am dwyll a gyflawnir gan weithiwr, lle nad oes gweithdrefnau rhesymol ar waith i'w atal.

**6.17.** Mae datgelu effeithiol yn hanfodol i dreial teg ar gyfer rhai sydd dan amheuaeth a dioddefwyr, ac mae'n cefnogi hyder y cyhoedd yn y gwaith o weinyddu cyfiawnder troseddol. Fodd bynnag, mae faint o ddeunydd digidol sy'n cael ei gynhyrchu mewn gwaith achos cymhleth yn dal i dyfu ac mae'n arbennig o amlwg mewn achosion o droseddu economaidd. Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn parhau i wella prosesau a galluoedd o dan y drefn ddatgelu bresennol. Mae Cyfarwyddiaeth Troseddu Economaidd, Cyfundrefnol a Rhyngwladol Difrifol y CPS yn parhau i gadeirio Bwrdd Datgelu aml-asiantaeth ac maent hefyd wedi datblygu Safon Datgelu newydd ar gyfer gwaith achos cymhleth, sy'n parhau i hyrwyddo ymgysylltu cynnar rhwng ymchwilwyr ac erlynwyr. Ystyrir bod hyn yn allweddol i adeiladu achosion yn effeithiol a chanlyniadau erlyn llwyddiannus. Fe'i hanogir yn arbennig yng Nghanllawiau'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus ar Gyhuddo, 6ed Rhifyn[42] , mewn achosion difrifol, sensitif neu gymhleth.

**6.18.** Er bod yn rhaid i ymchwilwyr ac erlynwyr barhau i wella prosesau a gwella galluoedd i gyflawni rhwymedigaethau datgelu o dan y drefn bresennol, mae hefyd yn bwysig ein bod yn edrych ar atebion sy'n helpu i wneud y system cyfiawnder troseddol yn fwy effeithlon. Er bod y Twrnai Cyffredinol wedi cynnal adolygiad eang o ddatgelu yn 2018, bydd y Llywodraeth yn edrych eto ar beth arall y gellir ei wneud i wneud y broses ddatgelu yn haws ei rheoli yn yr oes ddigidol, gan gynnwys edrych ar opsiynau ar gyfer diwygiadau deddfwriaethol ac anneddfwriaethol. Bydd rhagor o fanylion yn cael eu nodi yn y Strategaeth Dwyll sydd ar y gweill.

42 Charging (The Director's Guidance) - sixth edition, December 2020. The Crown Prosecution Service (cps.gov.uk).

**Key:**

**ML** Reduce money laundering and recover more criminal assets.

**S** Combat kleptocracy and drive down sanctions evasion.

**F** Cut fraud.

| # | Cam gweithredu | Perchennog | Sefydliadau Cefnogi | Cerrig milltir | Dyddiad Cyflawni |
|---|---|---|---|---|---|
| **39.** | Adolygu argymhellion Comisiwn y Gyfraith ynghylch Atebolrwydd Troseddol Corfforaethol a chyflwyno unrhyw newidiadau a dderbynnir, gan gynnwys deddfwriaeth seiliedig ar athrawiaeth adnabod a throsedd methiant i atal twyll. **ML** **S** **F** | HO/MoJ. | HMT, AGO (yn cynnwys CPS a SFO), DBT, HMT. | Adolygu Argymhellion Comisiwn y Gyfraith (HO). | Parhaus. |
| | | | | Cyflwyno'r drosedd methiant i atal trosedd twyll newydd a fydd yn cael ei chynnwys yn y Mesur ECCT (HO, DBT). | Ch3 2023. |
| | | | | Deddfu i'w gwneud yn haws erlyn corfforaethau am droseddau a gyflwynwyd gan eu huwch reolwyr drwy wella'r ffordd y mae gwneuthurwyr penderfyniadau'r gorfforaeth yn cael eu nodi drwy gyfraith (athrawiaeth adnabod) (HO). | Fel mae amser seneddol yn ei ganiatáu. |
| **40.** | Lansio Llys Barn Dinas Llundain. **ML** **S** **F** | GLITEM. | HO, MOJ, CoLP. | Disgwylir meddiannu yn 2026 (GLITEM). | 2026. |

## Ariannu

**6.19.** Mae buddsoddiad y llywodraeth, ynghyd â'r Ardoll Troseddu Economaidd (Gwyngalchu Arian), yn cynrychioli pecyn cyffredinol o £400 miliwn i fynd i'r afael â throseddu economaidd dros dair blynedd (FY2022/23–FY2024/25). Mae'r cyllid hwn yn sail i'r gweithgareddau a nodir yn yr ail fersiwn hwn o'r Cynllun Troseddu Economaidd, gan gynnwys cynyddu capasiti asiantaethau gorfodi'r gyfraith a Gwasanaeth Erlyn y Goron, a buddsoddi mewn data a thechnoleg er mwyn atal a chanfod Troseddau Economaidd yn y ffordd orau bosibl.

**6.20.** Byddwn yn archwilio ac yn asesu opsiynau i ail-fuddsoddi cronfeydd troseddol tybiedig a gedwir wedi'u rhewi mewn cyfrifon dros dro ar draws y sector preifat. Ar ben hynny, rydym yn edrych ar opsiynau posibl er mwyn gallu adfer mwy o asedau gan droseddwyr drwy'r Cynllun Ysgogi Adfer Asedau (ARIS). Byddai hyn yn galluogi buddsoddiad ychwanegol drwy'r system a byddai'n cyflymu ein huchelgais i leihau twyll, lleihau gwyngalchu arian, ac adfer mwy o asedau troseddol.

**Allwedd:**

**ML** Leihau gwyngalchu arian ac adennill mwy o asedau troseddol.

**S** Ymladd yn erbyn cleptocratiaeth ac osgoi sancsiynau.

**F** Lleihau twyll.

| # | Cam gweithredu | Perchennog | Sefydliadau Cefnogi | Cerrig milltir | Dyddiad Cyflawni |
|---|---|---|---|---|---|
| **41.** | Edrych ar fecanwaith i alluogi defnyddio arian anghyfreithlon a amheuir a gedwir mewn cyfrifon dros dro i fynd i'r afael â throseddu economaidd, ar yr un pryd â diogelu mynediad cwsmeriaid I'w cronfeydd dilys. **ML** **S** **F** | HO. | HMT, UK Finance, FCA. | Archwilio cynnig polisi hyfyw drwy ymgysylltu â'r diwydiant (HO). | Ch3 2023. |
| | | | | Ymgynghori â rhanddeiliaid ynghylch polisi drafft, gan gynnwys gofynion ar gyfer deddfwriaeth (HO). | Ch3 2023. |
| | | | | Cyhoeddi ymateb y Llywodraeth ymynghoriad (HO). | Ch4 2023. |
| | | | | Deddfwriaeth ar waith (os oes angen) (HO). | Fel y bydd amser seneddol yn caniatáu. |
| | | | | Rhoi'r cynllun ar waith (os cytunir ar hynny) (HO). | Dibynnu ar ddeddfwriaeth. |
| **42.** | Galluogi mwy o asedau a adenillir gan droseddwyr, gan gynnwys drwy'r Cynllun Cymell Adfer Asedau (ARIS), i'w ail-fuddsoddi i fynd i'r afael â Throseddu Economaidd. **ML** **S** **F** | HO. | HMT. | Datblygu opsiynau posibl i alluogi ail-fuddsoddi mwy o dderbyniadau ARIS (HO). | Ch4 2024. |
| | | | | Archwilio ffyrdd eraill o alluogi buddsoddiad amlflwyddyn (yn amodol ar lefelau derbyniadau ARIS) (HO). | Ch4 2024. |

# Pennod 2
# Mesur cynnydd a llywodraethu

### Asesu cynnydd ac effaith

**7.1.** Mae'r llywodraeth wedi ymrwymo i olrhain a mesur cynnydd ac effaith y Cynllun. Felly, rydym yn datblygu fframwaith canlyniadau, fel rhan o ddull monitro perfformiad ehangach, i'n galluogi i roi ffocws cyson ar y canlyniadau a nodir yn y Cynllun. Bydd hyn yn ein helpu i olrhain a mesur cynnydd a pherfformiad ar draws y system, a chynnydd o gyflawni'r camau gweithredu i'r effeithiau rydym yn eu cael yn y pen draw.

**7.2.** Fel cam cyntaf tuag at gyflawni'r nod hwn, rydym wedi nodi rhywfaint o'r data perthnasol sy'n cael ei gyhoeddi ar hyn o bryd ar dwyll, gwyngalchu arian, cleptocratiaeth a sancsiynau yn yr 'Atodiad Data'[43] i'r Cynllun Troseddu Economaidd 2. Mae cyfyngiadau i'r data presennol, a nodir yn yr Atodiad Data, a dylid ei ddehongli'n ofalus. Nid yw ychwaith yn ymdrin â'r diwygiadau trawsbynciol eto. Mae'r Atodiad Data yn tynnu sylw at rai o'r amrywiadau dehongli ac yn cyfeirio at ffynonellau ar gyfer sylwebaeth fanylach.

**7.3.** At hynny, nid yw llawer o'r data presennol y cyfeirir ato yn yr Atodiad yn addas iawn ar gyfer datblygu dangosyddion perfformiad unigol y tu allan i fframwaith cyffredinol. Felly, byddwn yn gweithio gydag arbenigwyr a rhanddeiliaid i archwilio cyfleoedd i gael gafael ar ddata newydd i helpu i fireinio ein dangosyddion perfformiad.[44] Yn fwy penodol, byddwn yn:

- Asesu lle gellir gwella dangosyddion penodol drwy wella ansawdd data, neu gasglu data newydd.
- Asesu lle mae angen datblygu dangosyddion newydd.
- Datblygu dangosyddion ansoddol i ddisgrifio perfformiad yn erbyn rhai o'r camau gweithredu lle bo hynny'n briodol.
- Datblygu dealltwriaeth o oddefiant risg yn erbyn dangosyddion perfformiad.

---

43 **Economic Crime Plan 2 – Data Annex (gov.uk).**

44 Darn o wybodaeth sy'n helpu i ddeall sut mae nod neu amcan yn cael ei gyflawni.

**7.4.** Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu dangosyddion perfformiad gwell ar draws nifer o gamau gweithredu yn y Cynllun. Dyma rai o'r meysydd rydym yn bwriadu eu harchwilio ymhellach:

- Datblygu dangosyddion i ddeall canlyniadau (h.y. canlyniadau tymor byr-canolig) ac effeithiau (h.y. canlyniadau tymor hir) camau gweithredu i **gyfyngu ar gamddefnyddio strwythurau corfforaethol, a chamau i fynd i'r afael â chamddefnyddio crypto-asedau yn droseddol**.
- Archwilio'r posibilrwydd o **wella data ar ganlyniadau cyfiawnder troseddol** er mwyn darparu dealltwriaeth fwy cynhwysfawr a manwl o achosion gwyngalchu arian yn y system. Er enghraifft, deall cyfran y cyhuddiadau a'r euogfarnau sy'n ymwneud â gwyngalchu arian lefel uchel, yn ogystal â maint yr achosion gwyngalchu arian 'cudd' fel troseddau eilaidd yn ein systemau data.
- Archwilio dangosyddion sy'n **adlewyrchu orau effeithiolrwydd gweithgarwch goruchwylio, ar draws y sector AML sy'n cael ei reoleiddio**. Bydd hyn yn ategu ymrwymiad o adolygiad 2022 o'r drefn AML/CFT i ddatblygu fframwaith perfformiad i fesur effeithiolrwydd y Rheoliadau Gwyngalchu Arian.
- Archwilio a fyddai'n ymarferol datblygu **dangosyddion newydd ar ddefnyddio SAR** – gan gynnwys ar gyfer dadansoddi strategol ac adborth i randdeiliaid, i sicrhau eu bod yn cael yr effaith fwyaf.
- Datblygu fframwaith perfformiad ar gyfer **asiantaethau adfer asedau**.
- Archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio **mesurau procsi ychwanegol sy'n dangos maint, y bygythiad a'r risg posibl o ganlyniad i wyngalchu arian**.

**7.5.** Yn olaf, rydym yn datblygu Damcaniaeth Newid,[45] a fydd yn sail i'r detholiad o ddangosyddion a ddefnyddir yn y fframwaith canlyniadau ar gyfer pob cam gweithredu yn y Cynllun. Bydd y Ddamcaniaeth Newid yn nodi mewnbynnau, allbynnau, canlyniadau (h.y. canlyniadau tymor byr-canolig), ac effeithiau (h.y. canlyniadau tymor hir) y camau gweithredu yn y Cynllun. Bydd yn ein galluogi i ddeall ac asesu effeithiolrwydd y camau gweithredu yn well.

45 Mae Damcaniaeth Newid yn arf arfer gorau, ac mae'n egluro sut y disgwylir i weithgareddau polisi gyfrannu at ganlyniadau penodol yn y tymor byr (**Theory of change | BetterEvaluation**). Ceir mwy o fanylion am y Ddamcaniaeth Newid yn **HMT Magenta Book (publishing.service.gov.uk)**, canllawiau'r llywodraeth ganolog ar werthuso - cyhoeddwyd yn 2020.

**7.6.** Mae datblygu'r dangosyddion hyn yn golygu mynd i'r afael â rhai bylchau mewn data a thystiolaeth hirsefydlog ym maes troseddu economaidd. Bydd y gwaith sydd ei angen yn eang, yn heriol, a bydd yn cymryd amser – i asesu pa mor ymarferol yw casglu data newydd a datblygu dangosyddion addas, cyn dechrau casglu unrhyw ddata newydd. Rydym yn awyddus i weithio gyda phartneriaid i helpu i ddatblygu a chanfod opsiynau newydd posibl ar gyfer mynd i'r afael â'r bylchau hyn a gwella ein ffynonellau data cyfunol. Byddwn yn adrodd ar gynnydd o ran datblygu data a'r fframwaith canlyniadau yn y dyfodol.

**Allwedd:**

**ML** Leihau gwyngalchu arian ac adennill mwy o asedau troseddol.

**S** Ymladd yn erbyn cleptocratiaeth ac osgoi sancsiynau.

**F** Lleihau twyll.

| # | Cam gweithredu | Perchennog | Sefydliadau Cefnogi | Cerrig milltir | Dyddiad Cyflawni |
|---|---|---|---|---|---|
| **43.** | Datblygu fframwaith canlyniadau ar gyfer Cynllun Troseddu Economaidd 2. **ML** **S** **F** | HO. | HMT, NECC, UK Finance, goruchwylwyr AML, FCA, goruchwylwyr PBS, DBT, FCDO. | Cytuno ar ddangosyddion blaenoriaeth i ffurfio fframwaith canlyniadau cychwynnol. Adrodd ar gyflawni tuag at fframwaith canlyniadau drwy drefn lywodraethu sefydlog ar gyfer troseddu economaidd (HO). | Ch3 2023. |
| | | | | Cyhoeddi diweddariad ffurfiol ar gynnydd wrth ddatblygu dangosyddion a data newydd (HO). | Ch4 2024. |
| | | | | Monitro perfformiad a gwella ffynonellau data o gyhoeddi ECP2 ymlaen. Bydd y dangosyddion cychwynnol yn cael eu datblygu drwy gydol y broses o roi'r cynllun ar waith (HO). | Parhaus. |

## Rheoli cyflenwi

**7.7.** Bydd y Bwrdd Strategol Troseddu Economaidd dan gadeiryddiaeth yr Ysgrifennydd Cartref a'r Canghellor yn parhau i oruchwylio'r Cynllun yn strategol. Mae'r Bwrdd yn dwyn ynghyd uwch ffigyrau o'r llywodraeth, asiantaethau gorfodi'r gyfraith a'r sector preifat gan gynnwys y sectorau ariannol, cyfreithiol a chyfrifyddiaeth. Mae'n gosod blaenoriaethau strategol ar gyfer ymateb preifat cyhoeddus i droseddau economaidd, yn cyfeirio adnoddau ac yn craffu ar berfformiad. Efallai y bydd y Bwrdd yn ceisio ategu'r blaenoriaethau a'r camau gweithredu yn y Cynllun i ymateb i unrhyw newidiadau sylweddol yn y cyd-destun troseddu economaidd yn y dyfodol. Ar ben hynny, mae'n bosibl y bydd aelodaeth y Bwrdd yn newid i sicrhau ei fod yn adlewyrchu lle mae risgiau'n bodoli ar draws y cyd-destun troseddu economaidd.

**7.8.** Bydd y Bwrdd Cyflawni ar gyfer Troseddau Economaidd (ECDB) sy'n cael ei gadeirio gan uwch swyddogion yn y Swyddfa Gartref a Thrysorlys EM yn dwyn ynghyd uwch swyddogion ar draws y llywodraeth ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith, a bydd y Grŵp Llywio Cyhoeddus-Preifat (PPSG) sy'n dod â chynrychiolwyr o'r llywodraeth, asiantaethau gorfodi'r gyfraith a'r sector preifat at ei gilydd hefyd yn parhau i fonitro cynnydd ar lefel gwaith. Byddwn yn adnewyddu aelodaeth a chylch gorchwyl y PPSG, gan sicrhau ei fod yn gallu sbarduno cynnydd ar draws y Cynllun yn effeithiol, gan gynnwys twyll ac ychwanegu rhagor o sectorau lle bo angen.

**7.9.** Mae'r ymateb gweithredol preifat cyhoeddus yn cael ei arwain gan y Bwrdd Gweithredol Cyhoeddus Preifat, yn y Ganolfan Troseddu Economaidd Genedlaethol. Bydd nifer o fyrddau a gweithgorau sy'n benodol i brosiectau yn eistedd o dan hyn yn ôl yr angen er mwyn sbarduno cyflawni o ddydd i ddydd.


Bwrdd Strategol Troseddu Economaidd
Yn cael ei gynnull gan yr Ysgrifennydd Cartref a'r Canghellor
Yn pennu blaenoriaethau strategol ar gyfer yr ymateb cyhoeddus preifat o droseddu economaidd, a throsolwg o'r Cynllun Troseddu Economaidd
Grŵp Llywio Sefydliadau Cymdeithas Sifil Troseddu Economaidd
Yn cael ei redeg y annibynnol
Herio'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Troseddu Economaidd a mynd ati i godi materion yn rhagweithiol i'w hystyried gan y Bwrdd Strategol Troseddu Economaidd
Bwrdd Cyflawni Troseddu Economaidd
Yn cael ei gadeirio ar y cyd gan uwch swyddogion yn y Swyddfa Gartref a Thrysorlys EF
Trosolwg o gyflawniad a chynnydd y Llywodraeth yn erbyn Cynllun Troseddu Economaidd 2 yn ei gyfanrwydd
Tasglu Twyll ar y Cyd
Yn cael ei gadeirio gan Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiogelwch
Trosolwg o'r gweithgaredd sy'n canolbwyntio ar ddiogelu
Grŵp Llywio Cyhoeddus Preifat
Cadeiryddiaeth gylchol rhwng uwch swyddogion y Swyddfa Gartref a Thrysorlys EF, ac uwch gynrychiolwyr o UK Finance
Trosolwg o'r camau gweithredu 'ar y cyd' neu sydd â rhyngddibyniaeth amlwg rhwng y sectorau preifat a chyhoeddus
Bwrdd Gweithredol Cyhoeddus Preifat
Yn cael ei gadeirio gan uwch swyddog NECC
Diffinio cwmpas ac amcanion gweithgaredd cyhoeddus preifat NECC
Allwedd
Cyhoeddus-preifat
Cynrychiolwyr o'r llywodraeth, asiantaethau gorfodi'r gyfraith a diwydiant
Sector cyhoeddus yn unig
Cynrychiolwyr o'r llywodraeth ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith
----- Yn diweddaru / bwydo i mewn yn ôl y gofyn

# **Atodiad**
# Cefnogaeth i'r Cynllun Troseddu Economaidd 2

Comisiynwyd y Cynllun Troseddu Economaidd 2 gan y Bwrdd Strategol Troseddu Economaidd a'i ddatblygu gyda'r Grŵp Llywio Cyhoeddus Preifat. Mae'r camau gweithredu sydd yn y Cynllun yn cael eu cefnogi gan aelodau'r grwpiau hyn a, lle bo hynny'n berthnasol, gan y sefydliad sy'n gyfrifol am gyflawni'r camau gweithredu.

**Cyfrifyddiaeth**

- Grŵp Goruchwylio Cyfrifyddiaeth AML
- BDO
- Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr

**Bancio, cyllid**

- Y Gymdeithas Fuddsoddi
- HSBC
- Lloyds Banking Group
- NatWest
- PIMFA
- Santander
- Standard Chartered
- UK Finance

**Crypto**

- Elliptic
- JRM
- TRM Labs

**Yswiriant**

- Cymdeithas Yswirwyr Prydain
- Lloyds of London

**Legal**

- Bwrdd Safonau'r Bar
- Rheoleiddio CILEx
- CLC
- Cymdeithas y Cyfreithwyr Cymru a Lloegr
- Cymdeithas y Cyfreithwyr, Gogledd Iwerddon
- Cymdeithas y Cyfreithwyr, yr Alban
- Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr

HM Government